



Home Office

Y Swyddfa Gartref

Mechnïaeth cyn cyhuddo

Trosolwg o'r dystiolaeth

Scarlett Furlong, Victoria Richardson ac Andy Feist

Ionawr 2021



© Hawlfraint y Goron [2021]

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwrch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn PoliceIntegrityUnit@homeoffice.gov.uk.

Cynnwys

Cynnwys	1
Rhestr o ffigurau	2
Rhestr o dablau	2
Rhestr o acronymau	4
Cydnabyddiaethau	6
Crynodeb gweithredol	7
Cyflwyniad	7
Defnydd a natur mechnïaeth cyn cyhuddo	8
Amrywiadau ar lefel y llu	9
Effaith y defnydd llai o PCB a'r defnydd cynyddol o RUI yn dilyn diwygiadau 2017	9
Effaith ar ddiodefwyr a thystion	10
Effaith ar reolaeth ymchwiliol	11
Yr effaith ar y rhai sydd dan amheuaeth	11
1 Cyflwyniad	13
2 Methodoleg	15
2.1 Tystiolaeth ymchwil	15
2.2 Data	17
3 Hanes a chyd-destun mechnïaeth cyn cyhuddo	18
3.1 Y broses mechnïaeth cyn-cyhuddo	18
3.2 Mechnïaeth cyn cyhuddo ag amodau	19
3.3 Toriadau	21
3.4 Deddf 2017 a'i chanlyniad	21
4 Defnydd a natur mechnïaeth cyn cyhuddo	24
4.1 Defnydd a natur PCB cyn diwygiadau 2017	24
4.2 Y defnydd o PCB ac RUI yng Nghymru a Lloegr yn dilyn y diwygiadau yn 2017	26
5 Effaith y defnydd llai o PCB a defnydd cynyddol o RUI yn dilyn y diwygiadau yn 2017	31
5.1 Barnau ar yr effaith ar ddiodefwyr a thystion - effeithiau sylfaenol ac eilaidd ..	31
5.2 Canfyddiadau diodefwyr ar fechnïaeth cyn cyhuddo	31
5.3 Canfyddiadau gweithwyr proffesiynol o ddiogelwch diodefwyr	32
5.4 Y sylfaen dystiolaeth ar gyfer gwerthuso	33
5.5 Newidiadau mewn canlyniadau 'nid yw'r diodefwyr yn cefnogi - nodwyd unigolyn dan amheuaeth'	34

5.6	Dioddefwyr: buddion eilaidd	39
5.7	Yr effaith ar reolaeth ymchwiliol	40
5.8	Yr effaith ar y rhai sydd dan amheuaeth	42
5.9	Presenoldeb gwirfoddol a mechnïaeth cyn cyhuddo	43
6	Sylwadau i gloi.....	45
7	Llyfryddiaeth.....	46
	Atodiad A. Gwybodaeth o awdurdodaethau cymharol	50
	Atodiad B. Data ar gael ar gyfeintau PCB cyn ac ar ôl y diwygiadau	51
	Atodiad C. Graffiau ychwanegol ar y defnydd o PCB ac RUI.....	53
	Atodiad D. Archwilio'r sylfaen dystiolaeth ehangach: mechnïaeth ôl-gyhuddiad, mechnïaeth llys a POs	55
	D.1 Ymchwil ar effeithiolrwydd mechnïaeth ôl-gyhuddiad neu fechnïaeth llys.....	55
	D.2 Y sylfaen dystiolaeth ar effeithiolrwydd gorchmynion amddiffyn	56
	D.3 Ail-droseddu	57
	Atodiad E. Gorchmynion amddiffyn sifil (CPOs) a gwaharddebau yng Nghymru a Lloegr.....	60
	Atodiad F. Tabl cryno o astudiaethau Gorchymyn Amddiffyn (PO) / Gorchymyn Amddiffyn Trais Domestig (DVPO).....	69

Rhestr o ffigurau

Ffigur 1: Llinell amser PCB yng Nghymru a Lloegr	19
Ffigur 2: Nifer yr unigolion a arestiwyd ac a roddwyd ar PCB yng Nghymru a Lloegr wedyn, yn seiliedig ar sampl o 27 lluo ^(a)	28
Ffigur 3: Cymhareb amcangyfrifedig o niferoedd PCB i arestiadau, y blynyddoedd 2016/17 a 2017/18 ^(a) , lluoedd dethol	29
Ffigur 4: Newid canrannol o ran 'nid yw'r dioddefwr yn cefnogi - nodwyd unigolyn dan amheuaeth' ^(a) , yn ôl ardal y llu a'r flwyddyn, y blynyddoedd yn dod i ben Mawrth 2016 i 2020 ^(b)	38
Ffigur 5: Yr amser canolrifol rhwng cofnodi'r drosedd a neilltuo'r canlyniad, y blynyddoedd yn dod i ben Mawrth 2016 i 2020	41
Ffigur 6: Nifer yr unigolion a roddwyd ar PCB cyn ac ar ôl y diwygiadau (blynyddoedd yn dod i ben 2 Ebrill 2017 a 2018) ar gyfer heddluoedd dethol ^(a)	53
Ffigur 7: Cymhareb amcangyfrifedig o gyfeintiau PCB i arestiadau cyn ac ar ôl y diwygiadau yn 2016/17 a 2017/18 ^(a) ar gyfer 28 o luoedd.....	54

Rhestr o dablau

Tabl 1: Tueddiadau yn nifer y canlyniadau ^(a) a gofnodwyd yn y flwyddyn, yn ôl y math o ganlyniad dethol: y blynyddoedd a ddaeth i ben Mawrth 2015 i 2020 (ac eithrio GMP).....	35
--	----

Tabl 2: Tueddiadau yn y gymhareb o ganlyniadau dethol ^(a) a gofnodwyd yn y flwyddyn i gyfanswm y troseddau a gofnodwyd, y blynyddoedd yn dod i ben Mawrth 2015 i 2020 (ac eithrio'r GMP)	36
Tabl 3: Newid canrannol o ran 'nid yw'r dioddefwr yn cefnogi - nodwyd unigolyn dan amheuaeth' ^(a) , yn ôl ardal y llu a'r flwyddyn, y blynyddoedd yn dod i ben Mawrth 2016 i 2020 ^(b)	39

Rhestr o acronymau

ANOVA	Dadansoddiad o amrywiant
ASBO	Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
CES	Canolfan Astudiaethau Epidemiolegol
CJ&PO	Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus
CJS	System cyfiawnder troseddol
CPN	Hysbysiad Gwarchod y Gymuned
CPO	Gorchmynion gwarchod sifil
CPS	Gwasanaeth Erlyn y Goron
DV	Trais Domestig
DVPN	Hysbysiad Gwarchod Trais Domestig
DVPO	Gorchymyn Gwarchod Trais Domestig
EMMIE	Effeithiolrwydd, Mecanweithiau, Cymedrolwyr, Gweithredu a'r Economi
FGM	Anffurfio organau cenhedlu benywod
FGMPO	Gorchymyn Gwarchod Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod
FMPO	Gorchymyn Amddiffyn rhag Priodas dan Orfod
FOI	Rhyddid Gwybodaeth
FPN	Hysbysiad cosb benodedig
GMP	Heddlu Manceinion Fwyaf
HMCPST	Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EM
HMICFRS	Arolygiaeth Cwnstablïaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi
IPV	Trais partner agos
IT [TG]	Technoleg Gwybodaeth
NCA	Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol
NFA	Dim gweithredu pellach
NI [GI]	Gogledd Iwerddon
NMO	Gorchymyn Peidio ag Ymyrryd
NPCC	Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu
ONS	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
OO	Gorchymyn Meddiannaeth
PACE	Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984
PCA	Deddf Plismona a Throsedd 2017

PCB	Pre-charge bail
PO	Gorchymyn Amddiffyn
PSPO	Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus
RO	Gorchymyn Atal
RUI	Rhyddhawyd o dan ymchwiliad
SCPO	Gorchymyn Atal Troseddau Difrifol
SHPO	Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol
STRO	Gorchymyn Risg Caethwasiaeth a Masnachu Pobl
TPIM	Mesurau Atal ac Ymchwilio i Derfysgaeth
VA	Presenoldeb gwirfoddol
VOO	Gorchymyn Troseddwr Treisgar

Cydnabyddiaethau

Mae'r awduron yn ddiolchgar i Dr Richard Martin (Athro Cynorthwyol y Gyfraith yn Ysgol Economeg a Gwyddor Gwleidyddol Llundain), yr Athro Anthea Hucklesby (Athro Cyfiawnder Troseddol a Phennaeth yr Ysgol Polisi Cymdeithasol ym Mhrifysgol Birmingham), a'r Athro Mandy Burton (Athro Astudiaethau Cymdeithasol-Gyfreithiol ym Mhrifysgol Caerlŷr), am adolygu yr adroddiad hwn gan gymheiriaid.

Crynodeb gweithredol

Cyflwyniad

- Gall yr heddlu yng Nghymru a Lloegr roi mechnïaeth cyn cyhuddo (PCB), a elwir hefyd yn fechnïaeth yr heddlu, i unigolion a arestiwyd ar amheuaeth o drosedd ond lle nad oes sail i'w cadw yn y ddalfa wrth i'r ymchwiliad barhau. Ar y cam hwn nid oes dystiolaeth ddigonol i gyhuddo.
- Gellir crynhoi prif ddibenion PCB o dan dri phennawd:
 - **Amddiffyn dioddefwyr a thystion**, sy'n gysylltiedig yn bennaf ag amodau a gymhwysir i PCB megis dim cyswllt â'r dioddefwr.
 - **Rheoli ymchwiliol**, gan ganiatáu i ymchwiliadau symud ymlaen i gael dystiolaeth.
 - **Rheoli'r rhai dan amheuaeth**, gan gynnwys lleihau'r risg o aildroseddu.
- Bu PCB yn destun newid deddfwriaethol trwy Ddeddf Plismona a Throsedd (PCA) 2017. Roedd y newidiadau yn bennaf yn ganlyniad i bryderon bod y rhai dan amheuaeth yn treulio cyfnodau estynedig o amser ar PCB, yn aml i'r achos yn erbyn yr unigolyn dan amheuaeth beidio â chael ei symud ymlaen.
- Roedd y diwygiadau PCA - a greodd ragdybiaeth yn erbyn defnyddio mechnïaeth yr heddlu - wedi arwain at ostyngiad trawiadol yn y defnydd o PCB yn y flwyddyn ar ôl eu cyflwyno, a adlewyrchir gan y nifer cynyddol o unigolion yn cael eu 'rhyddhau dan ymchwiliad' (RUI). Mae'r defnydd llai o PCB wedi arwain at feirniadaethau amrywiol, yn arbennig ynghylch rheolaeth ymchwiliol wannach, llai o wybodaeth i bobl sydd dan amheuaeth ynghylch cynnydd eu hachos, ac amddiffyniadau gwannach i ddiodefwyr a thystion.
- Ymrwymodd y Swyddfa Gartref i adolygu'r broses PCB ac RUI er mwyn ystyried a fydd newid pellach yn sicrhau bod mechnïaeth yn cael ei defnyddio lle mae hynny'n briodol ac i gefnogi'r heddlu i ddatblygu ymchwiliadau yn amserol. Er mwyn helpu i lywio'r gwaith hwn, mae'r adolygiad dystiolaeth hwn yn ceisio mynd i'r afael â'r materion dilynol: (1) pa ddata sy'n bodoli ar ddefnydd a natur PCB; a (2) pa effaith y mae diwygiadau 2017 wedi'i chael ar ddefnyddio PCB yng Nghymru a Lloegr. Mae'r adolygiad dystiolaeth hefyd yn archwilio'r sylfaen dystiolaeth gyfyngedig iawn ar effeithiolrwydd PCB. Mae'n seiliedig ar ymarfer strwythuredig i gasglu dystiolaeth o lenyddiaeth ymchwil a gyhoeddwyd ac sydd ar ddod, a data o ystod o ffynonellau.

Defnydd a natur mechnïaeth cyn cyhuddo

- Mae ymchwil gyhoeddedig gyfyngedig yn bodoli ar PCB cyn y diwygiadau yn 2017. Mae'r rhan fwyaf o astudiaethau wedi canfod bod oddeutu traean o'r rhai dan amheuaeth a arestiwyd wedi'u rhoi ar PCB yn y blynyddoedd cyn 2017. Mae dadansoddiad arall yn awgrymu y gallai fod yn agosach at ddwy ran o bump. Mae astudiaethau hefyd wedi canfod nad yw cyfrannau sylweddol o bobl dan amheuaeth sydd ar fechnïaeth yn cael eu cyhuddo yn y pen draw, â bron i hanner yr achosion mewn astudiaethau gan Hucklesby (2015) a Phillips a Brown (1998) yn arwain at beidio â gweithredu ymhellach (NFA).
- Canfu astudiaeth fanwl dau-lu Hucklesby (2015), er bod ethnigrwydd y rhai dan amheuaeth ar fechnïaeth yn adlewyrchu proffil y rhai a arestiwyd yn fras, roedd pobl o dan amheuaeth o gefndir Gwyn Ewropeaidd yn fwy tebygol o gael eu cyhuddo na'r rhai o grwpiau ethnig eraill. Mewn cyferbyniad, roedd pobl dan amheuaeth ar fechnïaeth o gefndiroedd du a lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o gael eu hachosion yn dod i ben yn NFA.
- Prin iawn yw'r wybodaeth am amllder a math yr amodau a osodir trwy PCB, y rhesymeg y tu ôl i'w gosod neu faint o doriadau sy'n digwydd. Canfu Hucklesby (2015) ymagweddau gwahanol iawn tuag at osod amodau yn nau lu ei hastudiaeth cyn y diwygiadau, ag un llu ddim yn defnyddio amodau o gwbl, a'r llall yn cymhwyso amodau mewn dwy ran o dair o achosion PCB. Amodau 'gwahardd', h.y. cadw draw oddi wrth bobl a lleoedd, oedd y rhai a gymhwyswyd amlaf.
- Yn seiliedig ar ymatebion Rhyddid Gwybodaeth (FOI) gan 29 llu yng Nghymru a Lloegr, mae dadansoddiad gan Gymdeithas y Gyfraith sy'n cwmpasu'r cyfnod cyn ac ar ôl y newid mewn deddfwriaeth yn darparu rhywfaint o dystiolaeth o'r effaith ar ddiwygiadau 2017. Ar gyfer is-set o 27 llu, yn y 12 mis yn dilyn y diwygiadau, gostyngodd nifer y rhai dan amheuaeth ar PCB o oddeutu 85%, o oddeutu 190,000 i 29,000. Mae data'r Swyddfa Gartref yn dangos bod niferoedd PCB wedi dechrau gwella yn yr ail flwyddyn ar ôl y diwygiadau. Mae ffigurau ar gyfer yr un 27 llu yn dangos bod y defnydd o PCB wedi cynyddu 106% i oddeutu 60,500 yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019, a 92% pellach yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020 i oddeutu 115,800.¹ Fodd bynnag, mae'r data hyn yn awgrymu bod PCB yn parhau i fod ymhell islaw'r lefelau cyn diwygio (i lawr bron i 40%).
- Credir yn gyffredinol bod yr adferiad cymedrol yn niferoedd PCB yn 2018/19 a 2019/20 yn gysylltiedig â phryderon ynghylch ymateb yr heddlu i'r diwygiadau a godwyd i ddechrau gan Arolygiaeth Cwnstablïaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS, 2018), ac ymateb y gwasanaeth heddlu i gyhoeddi canllawiau Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) ar ddefnydd yn 2019.

¹ Mae gwahaniaeth o ddau ddiwrnod rhwng yr amserlenni ar gyfer yr ystadegau arbrofol PCB a gasglwyd ar gyfer cyhoeddi Pwerau a Gweithdrefnau Heddlu'r Swyddfa Gartref (1 Ebrill i 31 Mawrth) a'r data Rhyddid Gwybodaeth a ddarperir gan Gymdeithas y Gyfraith (3 Ebrill i 2 Ebrill).

- Ar ôl y diwygiadau a chreu'r rhagdybiaeth yn erbyn PCB, roedd unigolion yn gynyddol RUI. Mae dadansoddiad Rhyddid Gwybodaeth Cymdeithas y Gyfraith yn awgrymu bod symudiad amlwg i ffwrdd o ryddhau unigolion ar PCB i RUI. Yn 2017/18, roedd oddeutu 177,000 o unigolion yn RUI yn y 29 llu yng Nghymru a Lloegr a ymatebodd i'r FOI.
- Ar ôl diwygio, mae cyfran sylweddol o unigolion a ryddhawyd ar PCB am y 28 diwrnod cyntaf yn gweld bod eu statws yn cael ei newid ar ôl rhyddhau i RUI wedyn. Mae hyn yn ychwanegu at gymhlethdod mesur cyfeintiau PCB ac RUI yn y dirwedd ôl-ddiwygio.

Amrywiadau ar lefel y llu

- Mae data ar lefel y llu yn dangos amrywiad eang yn y defnydd o PCB yn y flwyddyn cyn y diwygiadau. O gymharu'r defnydd o PCB yn erbyn cyfeintiau arestio (28 llu), roedd gan saith llu gymhareb PCB i arestio o 50% neu'n uwch yn 2016/17, tra bod chwe llu wedi cofnodi cymarebau o dan 20%.²
- Yn y flwyddyn yn dilyn y diwygiadau - ar gyfer yr un sampl o luoedd - roedd gan wyth llu gymhareb PCB i arestio o dan 2%, tra bod gan chwe llu gymarebau uwch na 10%. Er bod bron pob llu wedi gweld gostyngiadau amlwg yng nghyfran y rhai a arestiwyd a oedd yn destun PCB yn sgil y diwygiadau, bu bron i rai roi'r gorau i ddefnyddio PCB yn gyfan gwbl, tra bod lluoedd eraill wedi cynnal defnydd ar gyfradd gymedrol.

Effaith y defnydd llai o PCB a'r defnydd cynyddol o RUI yn dilyn diwygiadau 2017

- Mae'r gostyngiad ar raddfa fawr yn y defnydd o PCB, yn arbennig yn syth ar ôl y diwygiadau, wedi codi pryderon ynghylch yr effaith ar ddiodefwr, tystion, pobl dan amheuaeth a'r broses system cyfiawnder troseddol (CJS) ehangach. Roedd pryderon penodol bod y rhai dan amheuaeth o droseddau difrifol - troseddau treisgar a rhywiol, a'r rhai sy'n cynnwys troseddau mynych - yn RUI yn hytrach na chael PCB, er eu bod yn aml yn diwallu'r rhag-amodau ar gyfer PCB.³ Trwy ryddhau rhywun sydd dan ymchwiliad, ac nid ar PCB, ni all yr heddlu osod amodau i reoli'r unigolyn sydd dan amheuaeth, a gododd pryderon yn ei dro am yr effaith ar amddiffyn diodefwr a thystion. ⁴ Codwyd pryderon hefyd ynghylch sut yr oedd y symudiad tuag at RUI yn effeithio ar bobl dan amheuaeth a rheoli ymchwiliadau.

² Mae gwahaniaeth o ddau ddiwrnod rhwng yr amserlenni ar gyfer y data arestio a gasglwyd ar gyfer cyhoeddiad Pwerau a Gweithdrefnau Heddlu'r Swyddfa Gartref (1 Ebrill i 31 Mawrth) a'r data Rhyddid Gwybodaeth a ddarperir gan Gymdeithas y Gyfraith (3 Ebrill i 2 Ebrill).

³ Y rhag-amodau ar gyfer PCB yw bod swyddog y ddalfa yn fodlon bod rhyddhau'r unigolyn ar fechnïaeth yn angenrheidiol ac yn gymesur, a bod swyddog o reng arolygydd neu'n uwch yn awdurdodi'r rhyddhau ar fechnïaeth (PACE, 1984; PCA, 2017)

⁴ Mae mesurau diogelu eraill ar gael ar gyfer mathau penodol o achosion. Er enghraifft, mae achosion camfanteisio'n rhywiol ar blant yn tueddu i gynnwys gwasanaethau plant a mesurau amddiffyn sifil, a bydd troseddau honedig yn ymwneud â phobl ifanc yn aml yn sbarduno cyfranogiad timau troseddu ieuencid.

Effaith ar ddiodefwr a thystion

- Mae defnyddio mechnïaeth i naill ai newid ymddygiad troseddwr yn uniongyrchol tuag at ddiodefwr neu i ganiatáu i ddiodefwr a thystion deimlo'n fwy diogel wedi cael ei ystyried yn un o fuddion canolog PCB. Fodd bynnag, nid yw tystiolaeth werthuso gadarn ar yr effaith hon ar gael. Ymddengys fod llawer o'r 'theori newid' yn dod o osod a phlisma amodau sydd ynghlwm, yn hytrach na thrwy PCB ei hun. Amlygodd ymchwil ddiweddar a gomisiynwyd gan HMICFRS ac Arolygiaeth Gwasanaeth Erllyn y Goron EM (HMCPSI) fod amodau mechnïaeth yn aml yn gwneud i ddiodefwr deimlo'n fwy diogel, yn arbennig mewn troseddau lle mae perthynas agos rhwng diodefwr a throseddwr. Fodd bynnag, canfu Learmonth (2018) fod diodefwr yn aml yn feirniadol o amodau penodol a'u gorfodi. Yn y dirwedd ôl-ddiwygio, canfu HMICFRS/HMCPSI (2020) hefyd mai anaml yr oedd yr heddlu'n ystyried barn y diodefwr wrth benderfynu a ddylid rhyddhau'r unigolyn dan amheuaeth ar PCB neu RUI, ac, ar gyfer y cyntaf, pa amodau, os o gwbl, i'w gosod.
- Mae eraill wedi tynnu sylw at gyfres o fuddion eilaidd a gyflwynir gan amodau mechnïaeth. Er enghraifft, ystyriodd HMICFRS (2019) effaith amodau mechnïaeth mewn achosion cam-drin domestig gan awgrymu y gallai amodau mechnïaeth helpu i lywio penderfyniadau asiantaethau eraill, yn arbennig wrth amddiffyn diodefwr gartref. Mewn cyferbyniad, roedd absenoldeb amodau yn ei gwneud yn anoddach tystio i'r angen am dai brys neu orchymyn amddiffyn (PO).
- Er na nododd yr adolygiad hwn unrhyw werthusiadau canlyniadau cadarn ar PCB, mae sylfaen dystiolaeth fwy sylweddol yn bodoli ar effeithiolrwydd POs. Archwiliwyd yr ymchwil PO i ddechrau fel rhan o'r adolygiad oherwydd bod POs yn rhannu rhai o nodweddion PCB *ag amodau* Fodd bynnag, yn y pen draw, daethpwyd i'r casgliad bod y gwahaniaethau yn y ffordd y mae POs yn cael eu gweinyddu yn rhy fawr i'r dystiolaeth gael ei throsi'n hawdd i PCB.
- Cynhaliwyd gwaith dadansoddi i archwilio a oedd y cwmp sydyn yn PCB ym mlwyddyn gyntaf y diwygiadau yn gysylltiedig â newid mewn troseddau a gaewyd â'r canlyniad 'nid yw'r diodefwr yn cefnogi'r ymchwiliad - unigolyn dan amheuaeth wedi'i nodi'.
- Fe wnaeth pum llu fwy na dyblu eu niferoedd canlyniadau 'nid yw'r diodefwr yn cefnogi'r ymchwiliad - unigolyn dan amheuaeth wedi'i nodi' yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2018, yn fwy nag mewn unrhyw flwyddyn arall a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2017 i 2020. Yn ogystal, cofnododd pedwar o'r pum llu hyn gymarebau mechnïaeth i arestio isel o lai na 5%, gan awgrymu bod y defnydd o PCB ôl-ddiwygio ar lefelau isel iawn yn y lluoedd hyn yn y flwyddyn ar ôl y diwygiadau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn darparu tystiolaeth o gyswllt achosol.

Effaith ar reolaeth ymchwiliol

- Ail bryder oedd bod creu'r rhagdybiaeth yn erbyn PCB yn dileu nodwedd hanfodol o reolaeth ymchwilio effeithiol. Canfu ymchwil (Hillier a Kodz, 2012; Hucklesby, 2015) fod swyddogion, cyn diwygio, yn ystyried PCB fel offeryn plismona defnyddiol a bod ail-fechnïaeth i'r rhai dan amheuaeth yn angenrheidiol i reoli ymchwiliad yn effeithiol. Roedd cael dyddiadau mechnïaeth sefydlog yn ysgogiadau i'r broses ymchwilio. Credir bod colli'r ysgogiadau hyn a systemau TG heb gael eu haddasu i fonitro pobl dan amheuaeth ar ôl eu rhyddhau wedi cyfrannu at oruchwyliaeth waeth o ymchwiliadau ac amseroedd ymchwilio estynedig.
- Nodwyd pryderon ynghylch y berthynas rhwng diwygio PCB ac amseroldeb ymchwiliadau fel rhai sy'n effeithio ar bobl sydd dan amheuaeth, dioddefwyr a thystion. Yn yr achosion mwyaf eithafol, credir bod oedi wedi effeithio ar nifer fach o droseddau lle mae ymchwiliadau wedi'u cyfyngu gan gyfyngiadau amser ar gyfer erlyn, gan arwain at ollwng achosion (HMICFRS/HMCPSI, 2020).
- Mae data'n dangos cynnydd tymor hir yn y cyfnodau ymchwilio nodweddiadol ers y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2015. Mae'r amser cyfartalog (canolrifol) a gymerir i gyhuddo pobl dan amheuaeth wedi mwy na dyblu o 14 diwrnod yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2016 i 33 diwrnod yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020. Fodd bynnag, mae'n anodd dirnad union effaith y newid i RUI oddi wrth ffactorau eraill. Mae'n debygol bod y cynnydd cyffredinol yn y cyfnodau ymchwilio yn ganlyniad i gymysgedd cymhleth o ffactorau gan gynnwys lefelau cynyddol o alw ar yr heddlu, megis mwy o riportio o droseddau cymhleth, a'i bod yn fwyfwy cyffredin adfer ac archwilio tystiolaeth ddigidol. Efallai bod y symudiad i RUI hefyd wedi bod yn ffactor a gyfrannodd trwy wanhau disgyblaeth rheolaeth ymchwiliol.

Yr effaith ar y rhai sydd dan amheuaeth

Mae dau brif ddimensiwn i'r effaith ar y rhai sydd dan amheuaeth.

- Mae'r newid ar raddfa fawr i RUI wedi arwain at gyfathrebu gwannach rhwng ymchwilwyr a'r rhai sydd dan amheuaeth. Ceisiodd y diwygiadau leihau'r cyfnodau hir yr oedd y rhai dan amheuaeth yn eu cael eu hunain ar PCB, yn bennaf o dan amodau. Fodd bynnag, oherwydd y newid i RUI, mae pobl dan amheuaeth yn eu cael eu hunain heb fynediad gwarantedig i wybodaeth am ddatblygiad eu hachos y mae'r pwyntiau gwirio mechnïaeth wedi'i greu o'r blaen. Mae hyn yn creu ansicrwydd ynghylch yr achos a gall gyfrannu at ymchwiliadau hir, gan adael y rhai sydd dan amheuaeth 'mewn cyflwr ansicr'.
- Mae diffyg monitro'r rhai dan amheuaeth RUI gan luoedd broblemau posibl ynghylch trin samplau biometreg. Yn ei adroddiad blynyddol yn 2019, nododd y Comisiynydd Biometreg, oherwydd natur gyfyngol systemau TG yr heddlu, nad oedd rhai lluoedd yn gallu darparu data am nifer y rhai dan amheuaeth RUI, ag effeithiau canlyniadol ar

reoli samplau biometreg yn effeithiol (Wiles, 2020). Gallai hyn fod wedi arwain at rai lluoedd yn dal data biometreg yn anghyfreithlon.

1 Cyflwyniad

Gall yr heddlu yng Nghymru a Lloegr roi mechnïaeth cyn cyhuddo (PCB), a elwir hefyd yn fechnïaeth yr heddlu, i unigolion a arestwyd ar amheuaeth o gyflawni trosedd, ond lle nad oes sail i'w cadw yn y ddalfa tra bo'r ymchwiliad yn parhau. Ar y cam hwn yn y broses ymchwilio, nid oes tystiolaeth ddigonol i gyhuddo'r unigolyn am y drosedd. Defnyddir PCB i reoli'r unigolyn a arestwyd yn ystod yr ymchwiliad wrth gael tystiolaeth mewn perthynas â'r drosedd. Mae'n ofynnol i berson sy'n cael mechnïaeth ailfynychu gorsaf heddlu o bryd i'w gilydd. Er mwyn sicrhau cydymffurfedd â gofynion mechnïaeth, gellir atodi amodau, megis dim cyswllt â dioddefwr neu gyfyngiadau ar fynd i mewn i ardaloedd penodol.

Cyn diwygiadau mechnïaeth 2017, roedd beirniadaethau cynyddol bod rhai dam amheuaeth yn treulio cyfnodau estynedig ar fechnïaeth cyn iddynt gael eu cyhuddo o drosedd neu i'r achos gael ei gau fel 'dim gweithredu pellach' (NFA). Deddfodd y Llywodraeth trwy Ddeddf Plismona a Throsedd 2017 (PCA) i fynd i'r afael â'r pryderon hyn. Yn benodol, cyflwynodd hon fesurau i gyfyngu ar gyfnodau PCB, gan geisio ailgydbwysu defnydd mechnïaeth yr heddlu er budd tegwch. Cyflwynodd y PCA ragdybiaethyn *erbyndefnyddio* PCB oni bai bod ei ddefnyddio'n cael ei ystyried yn angenrheidiol ac yn gymesur yn yr holl amgylchiadau. Roedd hefyd yn darparu amserlenni a phrosesau statudol clir ar gyfer gosod ac estyn mechnïaeth yn y lle cyntaf. Ar hyn o bryd mae PCB yn gweithredu o dan y ddeddfwriaeth hon.

Ers i'r diwygiadau ddod i rym (Ebrill 2017), mae'r defnydd o PCB wedi gostwng - yn ddramatig yn y flwyddyn gyntaf - wedi'i adlewyrchu gan nifer cynyddol o unigolion 'a ryddhawyd dan ymchwiliad' (RUI) (Cymdeithas y Gyfraith, 2019). Fodd bynnag, nid yw unigolion a ryddhawyd dan ymchwiliad yn ddarostyngedig i amodau,⁵ ac nid oes terfynau amser wedi'u gosod i'r sawl sydd dan amheuaeth ddychwelyd i orsaf yr heddlu.

Mae'r gostyngiad amlwg yn y defnydd o PCB a'r defnydd cynyddol o RUI wedi arwain at set newydd o feirniadaethau. Yn gyffredinol, gellir grwpio'r beirniadaethau hyn yn dri maes:

- **Dioddefwyr thystion:** Serch hynny, roedd pobl dan amheuaeth, a oedd yn aml yn diwallu'r rhag-amodau (gweler troednodyn 3) ar gyfer PCB o dan welliannau 2017, gan gynnwys y rhai dan amheuaeth o gam-drin domestig a throseddau rhywiol, yn cael eu rhoi ar RUI. Roedd hyn yn golygu bod dioddefwyr a thystion yn yr achosion

⁵ Heblaw am y troseddau cyfraith droseddol sefydledig sy'n amddiffyn cyfanrwydd yr ymchwiliad, megis bygwth neu aflonyddu tystion.

hyn mewn perygl o beidio â chael eu hamddiffyn trwy amodau y gallai mechnïaeth yr heddlu eu darparu.

- **Rheoli ymchwiliol:** Rheolaeth ymchwiliol wannach oherwydd dod â'r gofyniad o dan PCB am bwyntiau sefydlog i ben pan oedd rhaid i swyddogion ymgysylltu â rhywun dan amheuaeth yn uniongyrchol. Dadleuwyd y gallai hyn effeithio ar amseroldeb dilyniant achosion. Gallai oedi ychwanegol mewn cyfnodau achos sydd eisoes yn hir effeithio'n negyddol ymhellach ar ddioddefwyr, tystion a phobl sydd dan amheuaeth.
- **Y rhai dan amheuaeth** Gellir gadael y rhai dan amheuaeth nad ydynt yn cael eu rhyddhau ar fechnïaeth yn RUI am gyfnodau hir o amser heb unrhyw ddiweddariadau neu ddiweddariadau afreolaidd ar hynt eu hachos, gan ychwanegu ansicrwydd pellach at y broses.

Ymrwymodd y Llywodraeth i adolygu PCB er meyn ystyried yr angen am newid pellach i sicrhau bod PCB yn cael ei ddefnyddio lle mae'n briodol ac i gefnogi'r heddlu i symud ymchwiliadau ymlaen yn amserol.

Fel rhan o'r adolygiad, cynigiwyd y dylid cynnal adolygiad tystiolaeth ar PCB Yn benodol, mae hyn wedi ceisio mynd i'r afael â dau fater allweddol: (1) pa ddata sy'n bodoli ar ddefnydd a natur PCB; a (2) pa effaith y mae diwygiadau 2017 wedi'i chael ar ddefnyddio PCB yng Nghymru a Lloegr. Bwriad yr ymarfer hefyd oedd archwilio'r dystiolaeth ar effeithiolrwydd PCB. Fodd bynnag, nodwyd tystiolaeth gadarn gyfyngedig iawn yn unig sy'n uniongyrchol gysylltiedig ag effeithiolrwydd PCB.

2 Methodoleg

Mae cynnwys yr adolygiad hwn yn seiliedig ar ymarfer strwythuredig i gasglu dystiolaeth o dystiolaeth a data cyhoeddedig.

2.1 Tystiolaeth ymchwil

Y llenyddiaeth ymchwil a aseswyd ar gyfer yr adolygiad hwn oedd astudiaethau a oedd yn hawdd eu cyrraedd ac yn yr iaith Saesneg. Canolbwyntiodd y chwiliad am ymchwil ryngwladol ar PCB ar brosesau cyfiawnder troseddol a oedd yn cyfateb i PCB yng Nghymru a Lloegr. O fewn y DU, canfuwyd dulliau tebyg yn fras o PCB yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, er bod ganddynt dermau deddfwriaethol gwahanol. Er enghraifft, yn yr Alban gelwir y broses ar gyfer rhyddhau pobl dan amheuaeth cyn cyhuddo ag amodau yn 'rhyddhau ymchwiliol'. Felly roedd angen i'r meini prawf chwilio fod yn ddigon eang i nodi'r prosesau deddfwriaethol a chyfiawnder troseddol mewn gwledydd eraill.

Datgelodd adolygiad archwiliadol cychwynnol, a thrafodaeth gydag arbenigwyr pwnc, er bod cryn dipyn o ymchwil a llenyddiaeth lwyd yn bodoli ar natur a defnydd PCB, prin oedd yr ymchwil a gyhoeddwyd i effeithiolrwydd PCB. Fodd bynnag, roedd llenyddiaeth ymchwil fwy helaeth yn seiliedig ar werthuso yn bodoli ar fathau eraill o 'reolaethau' cyn cyhuddo megis gorchmynion amddiffyn (POs). Er nad oedd ymyriadau PO yn cyfateb yn uniongyrchol â PCB, roedd rhai tebygrwyddau i PCB *ag amodau* yn y ffordd yr oeddent yn ceisio mynd i'r afael ag ymddygiad troseddwyr, neu i gefnogi dioddefwyr, cyn i unrhyw gyhuddiadau yn erbyn rhywun dan amheuaeth gael eu gosod. Felly cafodd POs eu cynnwys yn y meini prawf chwilio i ddechrau.

Y set lawn o feini prawf chwilio a ddefnyddiwyd oedd:

- **Mechnïaeth cyn cyhuddo:** heddlu, gorfodi'r gyfraith, llys, mechnïaeth cyn cyhuddo, mechnïaeth, ryddhawyd dan ymchwiliad, mechnïaeth ôl-gyhuddiad, trosedd, plismona, cyfiawnder troseddol, cam-drin domestig, effeithiolrwydd, trais domestig, ymosodiad rhywiol, aflonyddu.
- **Gorchmynion amddiffyn:** gorchmynion amddiffyn, gorchmynion amddiffyn sifil, gorchmynion a hysbysiadau amddiffyn trais domestig, gorchmynion gwahardd, gorchmynion sifil, gorchmynion amddiffyn stelcio, gorchmynion atal, effeithiolrwydd, gorchmynion meddiannaeth, gorchmynion peidio ag ymyrryd, cam-drin domestig.

Gweithredwyd termau chwilio i'r cronfeydd data dilynol: Llyfrgell Genedlaethol yr Heddlu, Cymdeithas Ymchwil Gymdeithasol, Campbell Collaboration, NCJRS, WorldCat, Google

Scholar a Google search. Cyfyngwyd y chwiliad hwn i astudiaethau o 1984 hyd heddiw, i gynnwys ymchwil ar PCB yn unig yn dilyn newidiadau deddfwriaethol a gynhwysir yn Neddf PACE (1984). Digwyddodd y prif chwilio rhwng Tachwedd 2019 a Mawrth 2020.

Arweiniodd y chwiliad at 79 o erthyglau ac adroddiadau cyhoeddedig a oedd yn diwallu'r meini prawf chwilio ar gyfer PCB ar y dechrau. Darparwyd tair astudiaeth hefyd gan academyddion ag arbenigedd mewn PCB. O'r erthyglau a'r adroddiadau, diystyrwyd llawer oherwydd nad oeddent yn astudiaethau ymchwil empirig nac yn werthusiadau academaidd, neu am nad oeddent yn uniongyrchol berthnasol i'r maes pwnc. Mae'r adroddiad hwn yn tynnu'n bennaf ar wyth astudiaeth a oedd yn cynnwys ymchwil archwiliadol PCB neu RUI ac 11 astudiaeth a archwiliodd fechnïaeth yng nghyd-destun ehangach y system cyfiawnder troseddol. Nid oedd yr un o'r astudiaethau hyn yn werthusiadau effaith ffurfiol ac roedd y mwyafrif yn ddisgrifiadol. Ni nododd unrhyw un dystiolaeth uniongyrchol i ateb y cwestiwn ar effeithiolrwydd PCB yn y broses cyfiawnder troseddol.

Cafwyd 61 astudiaeth gyhoeddedig yn y chwiliad a oedd yn diwallu'r meini prawf chwilio ar gyfer POs ar y dechrau. O'r rhain, roedd 13 yn destun adolygiad manylach. Roedd tri adolygiad a/neu feta-ddadansoddiadau (systematig Benitez et al., 2010; Dowling et al., 2018a; Cordier et al., 2019). Canolbwyntiodd un yn benodol ar adolygu effeithiolrwydd POs wrth leihau atgwympo mewn achosion trais domestig⁶(Cordier et al., 2019). Edrychodd y llall yn ehangach ar ymchwil i ddefnydd ac effaith POs ar gyfer trais domestig, gan ddefnyddio fframwaith EMMIE (Dowling et al., 2018a).⁷ Ymchwil ar POs o'r Unol Daleithiau sy'n dominyddu'r llenyddiaeth a gwmpesir gan y ddau adolygiad, felly efallai na ellir ei gyffredinoli i Gymru a Lloegr. Fe wnaeth y trydydd adolygiad, gan Benitez et al. (2010), archwilio a yw POs yn amddiffyn dioddefwyr a'r cyhoedd trwy leihau'r risg o niwed yn y dyfodol. Adolygwyd y deg astudiaeth PO unigol sy'n weddill gan ddefnyddio graddfa Maryland.⁸

Yn y pen draw, ar ôl adolygu'r dystiolaeth PO, daethpwyd i'r casgliad bod y gwahaniaethau yn y ffordd y mae POs yn cael eu gweinyddu yn rhy fawr i'r dystiolaeth gael ei chymhwyso'n hawdd i PCB. Felly, dim ond yn fyr yn y prif adroddiad y mae canfyddiadau'r adolygiad o astudiaethau o POs yn cael eu crynhoi, â disgrifiad mwy helaeth yn Atodiad D.

⁶ Defnyddir y termau 'cam-drin domestig' a 'thrais domestig' yn gyfnewidiol drwy'r llenyddiaeth. At ddibenion yr adolygiad hwn bydd y term 'cam-drin domestig' yn cael ei ddefnyddio oherwydd ei fod yn dal ystod ehangach o ymddygiad sydd bellach yn cael ei gydnabod fel tramgwydd troseddol yng Nghymru a Lloegr <https://www.gov.uk/government/news/coercive-or-controlling-behaviour-now-a-crime> [wedi'i weld 20/12/2020]

⁷ Mae fframwaith EMMIE yn edrych ar Effeithiolrwydd, Mecanweithiau, Cymedrolwyr, Gweithredu a'r Economi.

⁸ Mae Graddfa Dulliau Gwyddonol Maryland (SMS) yn raddfa pum pwynt yn amrywio o 1 ar gyfer gwerthusiadau yn seiliedig ar gydberthynas drawsoriadol syml, i 5 ar gyfer hap-dreialon rheoli.

2.2 Data

Mae'r adolygiad o dystiolaeth hefyd wedi tynnu ar y data sydd ar gael ar y defnydd o PCB yng Nghymru a Lloegr. Roedd y rhain yn aml yn dameidiog ac yn anghyson (HMICFRS/HMCPSI, 2020). Ni chasglwyd data ar ddefnyddio PCB fel mater o drefn tan ar ôl y diwygiadau yn 2017. Y tu hwnt i'r astudiaethau pwrpasol a ddisgrifir uchod, ychydig iawn o ddata a gasglwyd ar amodau mechnïaeth, torri mechnïaeth, troseddu ar fechnïaeth, estyniadau mechnïaeth a gweithredoedd yr heddlu mewn ymateb i unrhyw toriad ar fechnïaeth.

Cynhyrchodd ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) rywfaint o ddeunydd defnyddiol ar ddefnydd cyffredinol PCB, er bod problemau ynghylch cwmpas - ni ymatebodd pob llw - a chymharedd ar draws lluoedd (Cymdeithas y Gyfraith, 2019). Mae gwahaniaethau'n bodoli ynghylch cofnodi a chategoreiddio mechnïaeth o lu i lu (e.e. nid yw systemau TG lluoedd unigol ar gyfer rheoli mechnïaeth yn gydweiddol) gan ei gwneud yn anodd cymharu defnydd PCB yn fanwl ar draws lluoedd. Nododd HMICFRS/HMCPSI (2020) sawl rheswm pam efallai na fydd modd cymharu'r data. Mae lluoedd yn mesur achosion PCB ac RUI mewn gwahanol ffyrdd. Er enghraifft, mae rhai lluoedd yn cyfrif ar sail troseddwy, tra bod eraill yn cyfrif ar sail troseddau. Serch hynny, roedd y data Rhyddid Gwybodaeth yn ddefnyddiol gan eu bod yn caniatáu, i ryw raddau, cymariaethau eang ar ddefnyddio PCB cyn ac ar ôl y diwygiadau.

Cyhoeddwyd data ar PCB fel ystadegau arbrofol ym mwletinau ystadegol Pwerau a Gweithdrefnau Heddlu'r Swyddfa Gartref ers 2018 (Y Swyddfa Gartref, 2018; 2019; 2020a). Mae'r rhain yn cynnwys faint o unigolion a ryddhawyd ar PCB a'r amser a dreuliwyd ar PCB ar gyfartaledd. Yn y flwyddyn gyntaf, y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2018, roedd y cwmpas wedi'in gyfyngu i 17 o luoedd yn unig, ond cynyddodd hyn i 41 o luoedd a 40 o luoedd yn y blyneddau a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019 a 2020, yn y drefn honno. Er gwaethaf y ffaith bod data bellach yn cael eu casglu fel mater o drefn,⁹ mae heddluoedd ac HMICFRS wedi codi pryderon ynghylch ansawdd y data, gan amlygu bodolaeth cofnodion rhannol a diffyg cysondeb rhwng heddluoedd wrth gofnodi PCB (Y Swyddfa Gartref, 2019; HMICFRS/HMCPSI, 2020). Gan fod y data hyn yn arbrofol, dylid bod yn ofalus wrth ddod i unrhyw gasgliadau. Nid yw'r ystadegau arbrofol yn ymdrin â data RUI.

⁹ Mae Bwletin Ystadegol Pwerau a Gweithdrefnau'r Heddlu yn nodi bod "rhaid o'r lluoedd hyn wedi crybwyll pryderon ynghylch ansawdd eu data, gan gynnwys cofnodion rhannol Felly, mae data yn yr adroddiad hwn yn rhoi darlun dangosol yn unig, a dylid ei drin â gofal."

3 Hanes a chyd-destun mechnïaeth cyn cyhuddo

Mae sawl cam yn y broses cyfiawnder troseddol pan ellir gwneud y penderfyniad i roi mechnïaeth i unigolyn:

- Gan yr heddlu pan nad oes tystiolaeth ddigonol i gyhuddo, a elwir hefyd yn **fechnïaeth cyn cyhuddo (PCB)**.
- Gan yr heddlu pan yw digon o dystiolaeth ar gael i gyhuddo, a elwir hefyd yn **fechnïaeth ôl-gyhuddo**.
- Gan y llysoedd pan yw person wedi'i gyhuddo, a elwir hefyd yn **fechnïaeth llys**.

Gellir gosod mechnïaeth ag neu heb amodau ym mhob un o'r tri amgylchiad.

3.1 Y broses mechnïaeth cyn-cyhuddo


Gall yr heddlu yng Nghymru a Lloegr roi PCB o dan Ran 4 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE). Gellir cadw'r sawl sydd dan amheuaeth yn y ddalfa dim ond hyd at 24 neu 36 awr (y cyfeirir ato fel 'cloc y ddalfa') cyn bod rhaid ei gyhuddo neu ei ryddhau. Os oes angen ymholiadau ychwanegol, ac na ellir eu cynnal ar unwaith, yna caiff y sawl sydd dan amheuaeth ei ryddhau nes i'r heddlu gwblhau eu hymholiadau, fel nad ydynt yn cael eu cadw yn y ddalfa'n ddiangen. Mae PCB yn golygu bod yr unigolyn sydd dan ymchwiliad yn cael ei ryddhau o ddalfa'r heddlu, ag amodau neu hebddynt, tra bod swyddogion yn parhau â'u hymchwiliad.

Yn y cyfnod cyn Ebrill 2017, byddai unigolyn a gafodd ei arestio, ond yr oedd ymholiadau'n parhau ar ei gyfer, fel arfer yn cael ei ryddhau ar PCB. Ar adegau prin, roedd rhyddhau rhywun dan amheuaeth heb fechnïaeth *wrth* ymchwiliadau pellach gael eu cynnal cyn diwygiadau 2017 yn digwydd yn sgîl Hookway.¹⁰ Ers mis Ebrill 2017, mae'r rhai dan amheuaeth a ryddhawyd heb eu cyhuddo naill ai'n RUI neu ar PCB, ag amodau neu hebddynt.

¹⁰ Roedd dyfarniad yr Uchel Lys yn achos *Hookway* (Heddlu Manceinion Fwyaf v (1) Hookway, (2) Llys Ynadon Salford, AC, 19 Mai 2011) yn golygu y gallai pobl dan amheuaeth gael eu rhyddhau ar fechnïaeth yr heddlu am ddim mwy na 96 awr (pedwar diwrnod). Gwrthdrowyd y dyfarniad hwn yn gyflym, gan ddychwelyd cyfnodau mechnïaeth i gyfnod diderfyn.

Ar ôl ei ryddhau o'r ddalfa ar PCB, mae cloc dalfa'r unigolyn sydd dan amheuaeth yn stopio a phan fydd yr unigolyn sydd dan amheuaeth yn dychwelyd i ateb ei fechnïaeth, mae'r cloc yn parhau a gellir cyflwyno unrhyw dystiolaeth bellach a gafwyd iddynt. Yna gellir cyhuddo'r unigolyn sydd dan amheuaeth, ei ail-ryddhau ar fechnïaeth, ei ryddhau dan ymchwiliad neu gellid peidio â chymryd unrhyw gamau pellach yn eu herbyn. Mae Deddf Mechnïaeth 1976 yn nodi na ddylid gosod unrhyw amodau â PCB oni bai ei bod yn ymddangos i'r swyddog sy'n rhoi mechnïaeth ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny i atal person rhag methu ag ildio neu gyflawni troseddau pellach ac ati (gweler 3.2 isod am ragor o fanylion) (Deddf Mechnïaeth, 1976). Mae deddfwriaeth sy'n ymwneud â mechnïaeth yn bodoli o dan sawl Deddf ac Figure 1 yn nodi sut mae'r awdurdod i'r heddlu oosod PCB wedi datblygu dros amser.

Ffigur 1: Llinell amser PCB yng Nghymru a Lloegr



Ffynhonnell: Deddf Mechnïaeth (1976); PACE (1984); CJA (2003); Cape (2016); PCA (2017); Gov.uk (2019)

Crynoir gwybodaeth am awdurdodaethau cymharol, megis Gogledd Iwerddon a'r Alban, yn Atodiad A.

Gellir gosod PCB hefyd lle mae digon o dystiolaeth i gyhuddo rhywun sydd dan amheuaeth a bod yr unigolyn sydd dan amheuaeth yn cael ei ryddhau ar fechnïaeth tra bod y CPS yn gwneud penderfyniad ynghylch cyhuddo (a roddir o dan adran 37(7)(a) PACE). Nid oedd y math hwn o fechnïaeth cyn cyhuddo yn destun y diwygiadau a wnaed o dan PCA 2017 ac nid yw'n ddarostyngedig i'r un awdurdodiadau neu amserlenni â PCB lle nad oes dystiolaeth ddigonol i gyhuddo. Nid yw'n cael ei gwmpasu'n fanwl yn yr adolygiad hwn o dystiolaeth.

3.2 Mechnïaeth cyn cyhuddo ag amodau

Fe wnaeth Deddf Cyfiawnder Troseddol (CJA) 1967 gyflwyno mechnïaeth amodol a ymgorfforwyd yn Neddf Mechnïaeth 1976 ac mae deddfwriaeth ddilynol wedi ei diwygio

ymhellach.¹¹ Os diwallir y rhag-amodau (gweler troednodyn 3) ar gyfer rhoi mechnïaeth fel y nodir yn Adran 3 o'r Ddeddf, dylid cymhwyso amodau i fechnïaeth yr unigolyn sydd dan amheuaeth er mwyn sicrhau bod yr unigolyn sydd dan amheuaeth:

- yn ildio i'r ddalfa ar ddiwedd y cyfnod mechnïaeth
- ddim yn cyflawni trosedd tra ar fechnïaeth
- ddim yn ymyrryd â thystion
- ddim fel arall yn rhwystro cwrs cyfiawnder.

Gellir atodi amodau hefyd er amddiffyniad yr unigolyn dan amheuaeth a, lle mae'r unigolyn sydd dan amheuaeth yn blentyn neu'n berson ifanc, er ei les ei hun. Gall yr amodau a osodirgynnwys:

- Gwaharddiad ar adael y wlad gan gynnwys y gofyniad i ildio pasbort
- Peidio â chael mynd i mewn i ardal benodol megis cartref y dioddefwr honedig
- Cadw at gyrffyw
- Byw mewn preswylfa benodol yn ystod cyfnod y fechnïaeth
- Peidio â chael cyfathrebu â phobl benodol e.e. dioddefwyr, tystion a chymdeithion hysbys.

Nid yw'r amodau wedi'u nodi'n gyfreithiol ac mae cyngor neu ganllawiau canolog ar ba amodau y dylai'r heddlu eu gosod yn gyfyngedig. Ychydig iawn o gyfyngiadau sydd ar ba amodau y gallant eu gosod, gyda swyddogion yn defnyddio eu disgresiwn eu hunain. Fodd bynnag, mae Deddf Mechnïaeth 1976 a CJA 2003 yn nodi na all yr heddlu osod yr amodau dilynol ar yr unigolyn sydd dan amheuaeth ar gyfer mechnïaeth cyn neu ar ôl cyhuddo (CPS.gov.uk, 2019):

- Preswyllo mewn hostel mechnïaeth
- Mynychu cyfweliad ag ymgynghorydd cyfreithiol
- Sicrhau ei fod ar gael ar gyfer ymholiadau ac adroddiadau prawf
- Sy'n cynnwys gofynion monitro electronig.

¹¹ Cyfunwyd PCB, o ran ei ryddhau o gael ei gadw gan yr heddlu, ag amodau neu hebddynt, yn Neddf PACE (1984). Cyflwynwyd gwelliant i PACE hefyd trwy CJA 2003 (Deddf Cyfiawnder Troseddol, 2003) a roddodd y pŵer i'r heddlu atodi amodau i fechnïaeth i bobl dan amheuaeth sy'n cael eu rhyddhau ar fechnïaeth heb eu cyhuddo. Roedd hyn yn hwyluso proses penderfynu cyhuddo'r CPS. Cyflwynodd y CJA y cynllun cyhuddo statudol lle roedd y penderfyniad i gyhuddo unigolyn o drosedd (heblaw am fân droseddau) i'w wneud gan gynrychiolydd o'r CPS yn hytrach na swyddog yr heddlu. Er mwyn hwyluso hyn, galluogodd diwygiadau PACE ryddhau ar fechnïaeth yn ddarostyngedig i amodau, tra'n aros am benderfyniad y CPS, lle mae swyddog y ddalfa wedi penderfynu bod digon o dystiolaeth i gyhuddo rhywun sydd dan amheuaeth (Cape, 2016)

O ystyried hyn i gyd, gellir dadlau bod PCB yn cyflawni tri phrif amcan: rheoli pobl dan amheuaeth (gan gynnwys atal aildroseddu); amddiffyn dioddefwyr a thystion, yn bennaf trwy *PCB amodol*; a rheolaeth ymchwiliol gan gynnwys caniatáu amser i gael tystiolaeth.

Dibenion PCB diamod	Dibenion PCB amodol
Anawsterau tystiolaeth, ni nodwyd unigolyn dan amheuaeth: nid yw'r dioddefwr yn cefnogi gweithredu pellach	1%	3%	4%	5%	5%	5%

Ffynhonnell: Y Swyddfa Gartref (2020b)

(a) Mae'r ffigurau yn y tabl hwn yn ymwneud â chanlyniadau a gofnodwyd yn y flwyddyn ni waeth pryd y cofnodwyd y drosedd gysylltiedig.

(b) Cymhareb yn seiliedig ar nifer y canlyniadau a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn wedi'i rannu â nifer y troseddau a gofnodwyd yn y flwyddyn.

Figure 4 a Table 3 dangos dosbarthiad newidiadau flwyddyn ar flwyddyn 43 lluw mewn canlyniadau 'nid yw'r dioddefwr yn cefnogi - nodwyd unigolyn dan amheuaeth' rhwng 2016 a 2020.²⁷ Mae'n werth amlygu sawl nodwedd. Yn gyntaf, roedd y newid canolrifol flwyddyn ar flwyddyn ar gyfer y canlyniad hwn ar ei uchaf wrth gymharu'r blynyddoedd yn dod i ben Mawrth 2017 i 2018 ar 42%. Roedd hyn o'i gymharu â chynnydd canolrifol is yn y blynyddoedd ar bob ochr (gweler Tabl 3). Yn ail, o'i chymharu â blynyddoedd eraill, yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2018 gwelwyd mwy o luoedd a fwy na dyblodd eu canlyniad 'nid yw'r dioddefwr yn cefnogi - nodwyd unigolyn dan amheuaeth' (pum lluw, â chynnydd flwyddyn ar flwyddyn yn amrywio o 101% i 162%). Mae hyn yn cymharu â thri lluw yn y blynyddoedd yn dod i ben Mawrth 2016 i 2017 ac un ym mhob un o'r cyfnodau cymharu diweddarach. O'r pum lluw a gofnododd ddyblu yn y canlyniad hwn, cofnododd


²⁷ Ac eithrio GMP ac yn cynnwys BTP.

pob un ond un gymarebau arestio i PCB o dan 5% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2018.²⁸

Nid yw'r dadansoddiad hwn, wrth gwrs, yn darparu tystiolaeth uniongyrchol bod y diwygiadau PCB wedi *achosi*'rcynnydd mewn canlyniadau 'nid yw'r dioddefwr yn cefnogi - nodwyd unigolyn dan amheuaeth' mewn rhai lluoedd yn union ar ôl y diwygiadau. Fel y nodwyd uchod, gall llawer o ffactorau arwain at ddioddefwyr yn tynnu eu cefnogaeth i'r ymchwiliad yn ôl. Fodd bynnag, mae'r data a gyflwynir yn gyson â theori y gallai'r gostyngiad mewn PCB fod wedi cyfrannu'n rhannol at y codiad mewn niferoedd 'nid yw'r dioddefwr yn cefnogi' mewn rhai lluoedd yn y flwyddyn ar ôl diwygio.

²⁸ Nid oedd unrhyw ddata ar y gymhareb arestio i PCB ar gael ar gyfer y pumed llu. Cofnododd tri llustyngiadau yn nifer y canlyniadau 'nid yw'r dioddefwr yn cefnogi' yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2018 â gostyngiadau canrannol rhwng 5% a 25% ond ni chwmpaswyd yr un o'r lluoedd hyn yn y dadansoddiad 28-llu yn Ffigur 3.

Ffigur 4: Newid canrannol o ran 'nid yw'r dioddefwr yn cefnogi - nodwyd unigolyn dan amheuaeth^(a), yn ôl ardal y llu a'r flwyddyn, y blynyddoedd yn dod i ben Mawrth 2016 i 2020^(b)



Ffynhonnell: Y Swyddfa Gartref (2020b)

- (a) Mae'r ffigurau yn y siart hon yn ymwneud â chanlyniadau a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn ni waeth pryd y cofnodwyd y drosedd gysylltiedig.
- (b) Ac eithrio GMP

Tabl 3: Newid canrannol o ran 'nid yw'r dioddefwr yn cefnogi - nodwyd unigolyn dan amheuaeth'^(a), yn ôl ardal y llu a'r flwyddyn, y blynyddoedd yn dod i ben Mawrth 2016 i 2020^(b)

	Y blynyddoedd yn dod i ben 31 Mawrth			
	2016 i 2017	2017 i 2018	2018 i 2019	2019 i 2020
Canolrif	30%	42%	30%	12%
Ystod	2% i 196%	-25% i 162%	-13% i 244%	-19% i 272%
Allanolion 'uchel' ^(c) (nifer ac ystod)	2 (162% i 196%)	5 (101% i 162%)	1	3 (79% i 272%)
Nifer y lluoedd sy'n dangos cynnydd dros 100%	3	5	1	1

Ffynhonnell: Y Swyddfa Gartref (2020b)

(a) Mae'r data yn y tabl hwn yn ymwneud â chanlyniadau a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn ni waeth pryd y cofnodwyd y drosedd gysylltiedig.

(b) Ac eithrio GMP

(c) Mae allanolion uchel mewn plot blwch a wisgers yn fwy na Ch3 gan o leiaf 1.5 gwaith yr ystod rhyngchwartel.

5.6 Dioddefwyr: buddion eilaidd

Awgrymwyd y gallai fod rhai buddion ehangach o amodau mechnïaeth, yn arbennig mewn achosion cam-drin domestig. Yn eu harolygiad diweddar ar gam-drin domestig, ystyriodd HMICFRS (2019) effaith y diwygiadau ynghylch mechnïaeth ar achosion cam-drin domestig. Gan dynnu ar grŵp ffocws gyda naw ymarferydd o Women's Aid, nododd arolygiad HMICFRS y meysydd pryder dilynol:

- Roedd rhai swyddogion heddlu wedi bod yn cynghori dioddefwyr i wneud cais am orchymyn peidio ag ymyrryd mewn achosion lle nad oeddent wedi defnyddio mechnïaeth, a thrwy hynny'n roi'r cyfrifoldeb ar y dioddefwr i amddiffyn ei hun.
- Roedd absenoldeb amodau mechnïaeth yn ei gwneud yn anodd cyfiawnhau cadw'r unigolyn dan amheuaeth i ffwrdd o'r cartref yr oeddent yn ei rannu gyda'r dioddefwr. Roedd rhai unigolion dan amheuaeth wedi cael eu rhyddhau heb unrhyw amodau mechnïaeth ac wedi dychwelyd i gartref y teulu gan eu bod yn rhannu cyd-denantiaeth gyda'r dioddefwr, gan orfodi dioddefwyr a'u plant i adael.
- Lle roedd adrannau tai yn gofyn am brawf bod angen tai brys ar ddiodeffwr, byddai amodau mechnïaeth wedi cynorthwyo o'r blaen i ddarparu'r dystiolaeth hon. Canfuwyd hyn hefyd mewn ymchwil gan Learmonth (2018) i'r defnydd o fechnïaeth mewn achosion treisio lle amlygodd cyfweleion fod amodau'n cael eu defnyddio fel mecanwaith i drosoli diogelu ar draws asiantaethau partner.

- Roedd dioddefwyr yn ei chael yn anoddach tystio i'r angen am fecanweithiau diogelu eraill - megis gorchymyn atal - heb wybodaeth am hanes mechnïaeth neu doriadau ar fechnïaeth. Yn ogystal, fe nododd Hunter, Burton a Trinder (2020), mewn achosion trefniadau plant lle codir cam-drin domestig, efallai y bydd angen tystiolaeth o weithredu yn y CJS i gefnogi achos yn y llysoedd teulu.

O'r pedair enghraifft hyn, gellir asesu bod pob un ond y cyntaf yn cyd-fynd yn agosach â buddion eilaidd - neu anuniongyrchol - mechnïaeth ag amodau. Hynny yw, nid y fechnïaeth sy'n newid ymddygiad troseddwr neu ganfyddiadau dioddefwr o ddiogelwch yn uniongyrchol, ond sut y gellir defnyddio bodolaeth amodau mechnïaeth i gefnogi penderfyniadau ynghylch atebion neu amddiffyniadau eraill. Ac er y gellir cwestiynu ai amodau mechnïaeth yw'r mecanwaith cywir ar gyfer nodi risg i asiantaethau eraill, mae'r ffocws yma ar geisio deall effeithiau posibl y diwygiadau ar brosesau sy'n bodoli eisoes.

5.7 Yr effaith ar reolaeth ymchwiliol

Yr ail faes sy'n peri pryder ynghylch effaith y diwygiadau PCB yw'r un ar reoli ymchwiliol. Y brif feirniadaeth yma oedd bod creu'r rhagdybiaeth yn erbyn mechnïaeth yn dileu mecanwaith canolog ym maes rheolaeth ymchwilio effeithiol. Roedd ymchwil a wnaed cyn y diwygiadau'n awgrymu bod PCB yn gweithredu fel offeryn rheoli defnyddiol a bod y broses o ail-fechnïo'r rhai dan amheuaeth yn ddefnyddiol i reoli ymchwiliad yn effeithiol (Hillier a Kodz, 2012; Hucklesby, 2015). Er enghraifft, canfu Hillier a Kodz (2012) fod ail-fechnïo'n arbennig o ddefnyddiol mewn achosion lle nad oedd yr ymchwiliad wedi symud ymlaen mor gyflym â'r disgwyl, roedd disgwyl am dystiolaeth bellach neu os nad oedd y cyfnod mechnïaeth cychwynnol yn ddigon hir.


Dadleuir bod y newid i RUI - a'r absenoldeb dilynol o gerrig milltir a oedd yn bodoli o dan PCB - wedi gwanhau disgyblaeth rheoli achosion a goruchwylio pobl dan amheuaeth (HMICFRS/HMCPSI, 2020; Wiles, 2020). Credir bod hyn yn ei dro wedi cyfrannu at amseroedd treigledig hwy rhwng arestiadau a chanlyniadau achosion. Yn yr achosion mwyaf eithafol, awgrymwyd bod oedi wedi effeithio ar nifer fach o droseddau lle mae ymchwiliadau wedi'u cyfyngu gan derfynau amser ar gyfer erlyn, gan arwain at ollwng achosion (HMICFRS/HMCPSI, 2020). Canlyniadau ehangach oedi yw colli mwy o dioddefwyr a thystion cefnogol, a llai o gyhuddiadau o bosibl (HMICFRS/HMCPSI, 2020; HMICFRS/BritainThinks, 2020). Mae HMICFRS/HMCPSI (2020) hefyd yn amlygu, oherwydd oedi mewn ymchwiliadau, yn aml mae oedi pellach wrth erlyn achosion wrth i bobl dan amheuaeth gael eu hysbysu trwy neges bost.²⁹

Mae pryderon am y berthynas rhwng diwygio PCB ac amseroldeb ymchwiliadau wedi'u nodi fel materion sy'n berthnasol i dioddefwyr a phobl sydd dan amheuaeth. Fodd bynnag, mae'n anodd ceisio ynysu effaith y diwygiadau PCB ar amseroldeb

²⁹ Mae negeseuon post yn dweud wrth yr unigolyn sydd dan amheuaeth yr hyn y cyhuddwyd hwy ohono a'r dyddiad a'r amser y dylent fynychu'r gwrandawriad cyntaf yn y llys (HMICFRS/HMCPSI, 2020). Maent yn adrodd ei bod yn gyffredin i bobl dan amheuaeth beidio â mynychu'r llys oherwydd efallai nad ydynt erioed wedi derbyn y neges bost, oherwydd bod gan yr heddlu fanylion anghywir neu gyfeiriad sydd wedi dyddio.

ymchwiliadau. Mae'r amser y mae'n ei gymryd o drosedd yn cael ei chofnodi i gyhuddiad neu ganlyniad arall sy'n cael ei roi wedi bod yn cynyddu ar gyfer y mwyafrif o fathau o droseddau dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r cynnydd yn rhagddyddio diwygiadau mechnïaeth 2017³⁰ Mae'r amser cyfartalog (canolrifol) a gymerir i gyhuddo pobl dan amheuaeth ar ôl cofnodi cychwynnol wedi mwy na dyblu o 14 diwrnod yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2016 i 33 diwrnod yn 2020 (Y Swyddfa Gartref, 2020c) (Ffigur 5). Ar adeg diwygiadau 2017, nid yw'r newid o flwyddyn i flwyddyn mewn gwerthoedd canolrifol ar gyfer dau o'r grwpiau canlyniadau mwyaf perthnasol (h.y. nodwyd unigolyn dan amheuaeth) - a gyhuddir ac nid yw'r dioddefwr yn cefnogi'r ymchwiliad (nodwyd unigolyn dan amheuaeth) - yn dangos fawr o newid rhwng y blynyddoedd yn dod i ben Mawrth 2017 a 2018 (i fyny un diwrnod ym mhob achos). Fodd bynnag, o gofio mai gwerthoedd canolrifol Cymru a Lloegr yw'r rhain ar gyfer pob math o drosedd, bydd y ffigurau'n cuddio newidiadau mwy amlwg os cânt eu dadansoddi ar lefel fwy gronynnog (gweler Martin, sydd ar ddod).

Ffigur 5: Yr amser canolrifol rhwng cofnodi'r drosedd a neilltuo'r canlyniad, y blynyddoedd yn dod i ben Mawrth 2016 i 2020



Ffynhonnell: Y Swyddfa Gartref (2020c)

Credir bod ffactorau amrywiol wedi cynyddu hyda ymchwilio'r cyfnod hwn: galwadau ychwanegol ar yr heddlu, gan gynnwys riportio mwy o droseddau cymhleth, a'r angen cynyddol i adfer ac archwilio tystiolaeth ddigidol. Richardson et al. dangosodd (ar ddod) y

³⁰ Er bod yr amser allweddol ar gyfer mechnïaeth yw dod o arestio i gyhuddo neu ganlyniad arall (nid yw data canlyniadau troseddau'n cofnodi dyddiad arestio), mae'r ffigurau hyn o leiaf yn darparu dirprwy defnyddiol ar gyfer hyd cyffredinol yr ymchwiliad.

bu cynnydd amlwg yng nghyfran yr ymchwiliadau rhwng 2010 a 2018 â rhyw elfen o dystiolaeth ddigidol. Ac er bod yr effaith hon yn fwyaf amlwg mewn achosion troseddau rhywiol, mae'n bresennol ar draws ystod eang o fathau o droseddau.

Nododd y Coleg Plismona (2016) fod dadansoddiad fforensig yn un o'r ysgogwyr allweddol y tu ôl i gyfnodau hir o PCB cyn y diwygiadau. Fe wnaethant ganfod bod gan 60% o achosion dros 90 diwrnod ryw fath o samplau fforensig fel y rheswm dros fechnïaeth. Fe wnaethant hefyd ganfod mai'r math amlaf o ddadansoddiad fforensig oedd 'lawrlwythiadau ffôn', â 33% o achosion lle cafodd y rhai dan amheuaeth eu rhyddhau ar fechnïaeth dros 90 diwrnod gan roi hyn fel y rheswm dros estyn mechnïaeth. Er bod 'cwestiynu cyfrifiadurol' yn cyfrif am 3% o achosion yn unig, roedd ganddo'r hyd cymedrig hwyaf y fechnïaeth ar 84 diwrnod. Roedd tua 63% o'r achosion lle rhoddwyd 'cwestiynu cyfrifiadurol' fel rheswm yn ymwneud â threisio neu droseddau rhywiol eraill, tra bod 10% yn ymwneud â throseddau twyll.

Gyda gofynion fforensig digidol yn cynyddu a hyda ymchwilio'n ymestyn, awgrymwyd bod swyddogion yn gwybod ymlaen llaw y bydd angen iddynt geisio estyniad gan ynad ar ôl i'r estyniad cychwynnol o dri mis i fechnïaeth fynd heibio. Felly mae'n haws i'r heddlu ryddhau'r unigolyn sydd dan amheuaeth dan ymchwiliad (HMICFRS/HMCPSI, 2020; Martin, ar ddod).

Canfu'r Coleg Plismona (2016) hefyd fod cyfnodau mechnïaeth hwy hefyd yn adlewyrchu'r angen i gael datganiad tyst gan drydydd parti, e.e. gan weithiwr proffesiynol meddygol. Gwnaeth Hales and Wiggett (2017) a Martin (ar ddod) arsylwadau tebyg ar y ffactorau sy'n cyfrannu at oedi ymchwiliol.

5.8 Yr effaith ar y rhai sydd dan amheuaeth

Codwyd pryderon ynghylch yr effaith y mae diwygiadau mechnïaeth 2017 wedi'u cael ar bobl dan amheuaeth hefyd (Cymdeithas y Gyfraith, 2019). Mae dau brif ddimensiwn i'r effaith ar y rhai sydd dan amheuaeth. Yn gyntaf, bod y newid ar raddfa fawr i RUI wedi arwain at gyfathrebu gwannach rhwng ymchwiliwyr a'r rhai dan amheuaeth; ac, yn ail, pryderon penodol ynghylch monitro'r rhai dan amheuaeth RUI gan luoedd, gyda materion posibl yn ymwneud â thrin samplau biometreg. Mae'r effeithiau hyn wedi'u cysylltu'n agos â'r effaith ar reoli ymchwiliol. Ymdrinnir â phob un yn ei dro.

Er bod y diwygiadau'n ceisio lleihau hyd unigolion ar PCB, mae data'n awgrymu bod y cyfnodau hir hyn mewn sefyllfa 'ansicr' ar PCB, oherwydd y diwygiadau, dim ond wedi symud i sefyllfa lle mae'r rhai dan amheuaeth yn RUI. Gall ymchwiliadau hir roi straen ar bobl sydd dan amheuaeth, dioddefwyr, tystion a theuluoedd (HMICFRS/HMCPSI, 2020). At hynny, nid yw'r broses o ddiweddarau'r sawl sydd dan amheuaeth ar hynt yr ymchwiliad, a oedd yn rhwymedigaeth gyfreithiol o dan PCB, yn nodwedd orfodol o RUI. Mae dryswch wedi bodoli mewn rhai lluoedd ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ddarparu diweddariadau i'r rhai sydd dan amheuaeth ynghylch cynnydd yr ymchwiliad (HMICFRS/HMCPSI, 2020). O dan RUI, awgrymwyd nad yw'r rhai dan amheuaeth yn cael gwybod am hynt yr ymchwiliad (Cymdeithas y Gyfraith, 2019).

Nododd y Comisiynydd Biometreg hefyd rai gwendidau penodol o ran diwygiadau PCB a'u heffaith ar reoli achosion, ac yn benodol o ran rheoli pobl dan amheuaeth a thrin samplau fforensig. Yn ei adroddiad blynyddol yn 2019, nodwyd na allai rhai lluoedd ddarparu data ynghylch nifer y rhai dan amheuaeth RUI oherwydd gwendidau o ran monitro'r achosion hyn gan y llu. Credwyd bod hyn yn nodi'r broblem a wynebair mwyafrif o luoedd na ellid addasu systemau TG i gofnodi a monitro pobl dan amheuaeth a ryddhawyd, oni bai eu bod ar fechnïaeth. Mae HMICFRS/HMCPSI (2020) hefyd wedi mynegi pryder ynghylch diffyg system gofnodi ar gyfer RUI mewn sawl llu. Cododd hyn faterion ymhellach yn ymwneud â rheoli samplau biometreg. Byddai rhywun heb unrhyw euogfarnau eraill lle cymerwyd NFA yn eu herbyn, fel rheol, yn ôl y gyfraith, yn cael eu biometreg wedi'u dileu ar y pwynt hwn pe na byddent wedi'u dal ar fechnïaeth. Ond oherwydd nad oedd systemau TG llawer o luoedd wedi'u haddasu'n gyflym, gallai biometreg y rhai dan amheuaeth sy'n RUI gael eu dal yn anghyfreithlon ac o ganlyniad gallent gynhyrchu cydweddiadau fforensig anghyfreithlon. Er bod lluoedd yn gwneud cynnydd (gweler HMICFRS/HMCPSI, 2020), roedd y Comisiynydd yn feirniadol o'r oedi ynghylch diweddarau'r system ddwy flynedd ar ôl diwygio'r PCB (Wiles, 2020).

5.9 Presenoldeb gwirfoddol a mechnïaeth cyn cyhuddo

Yn olaf, mae'n bwysig crybwyll yn fyr y berthynas rhwng y diwygiadau PCB a'r presenoldeb gwirfoddol bondigrybwyll fel dewis arall yn lle arestio. Cyn newidiadau 2012 i God G PACE, roedd y rhai dan amheuaeth yr oedd yr heddlu'n ymchwilio iddynt am dramgwyddau troseddol, pan oedd digon o seiliau'n bresennol, yn cael eu harestio am dramgwyddau troseddol. Ers cyflwyno'r Cod G diwygiedig, mae'r defnydd o arestio wedi gostwng. Efallai y gofynnir i bobl nad ydynt yn cael eu harestio fynychu'n wirfoddol, ar amser ac mewn man penodol (fel arfer mewn gorsaf heddlu), i ateb cwestiynau'r heddlu. Gelwir hyn yn bresenoldeb gwirfoddol (VA) neu gyfweliadau gwirfoddol. Amcangyfrifwyd, ar y cyfan, bod oddeutu traean o'r rhai yr ymchwiliwyd iddynt fel rhai dan amheuaeth bellach yn destun VA, yn hytrach na chael eu harestio (Wiles, 2020).

Mae'n anodd datgysylltu union natur y rhyngweithio rhwng y twf yn niferoedd VA a'r diwygiadau PCB. Mae twf yn y defnydd o VA wedi cael ei feirniadu gan grwpiau dioddefwyr (e.e. Canolfan Cyfiawnder y Menywod, 2019) oherwydd, cyn y diwygiadau, roedd ei ddefnydd yn debygol o fod wedi arwain yn annibynnol at ostyngiadau mewn defnyddio mechnïaeth (gan mai dim ond i aresteion y gellid rhoi mechnïaeth). Ac mae eraill wedi bod yn feirniadol o'r defnydd cynyddol o VA ar gyfer troseddau y gellid disgwyl iddynt arwain at arestiad - troseddau rhywiol a throseddau treisgar - oherwydd eu bod yn atal cymryd samplau biometrig cyn cyhuddo (Wiles, 2020). Mae ffigurau cenedlaethol ar VA yn ôl math o drosedd yn gyfyngedig ond mae'r ONS wedi cyhoeddi ffigurau gan HMICFRS ar arestiadau a VAs ar gyfer troseddau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019 (ONS, 2019). Ar gyfer 27 o luoedd a ddarparodd ddata arestio a VA, roedd oddeutu 150,300 o arestiadau a 21,300 o VA's am droseddau cysylltiedig â cham-drin domestig yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019 (ibid.). Awgrymwyd bod y gostyngiad yn y defnydd o fechnïaeth ag amodau ar ôl diwygio wedi gwneud i VA ymddangos yn gymharol fwy deniadol o'i gymharu ag arestio

wrth i fanteision arestio dros VA leihau os yw'r gallu i weithredu mechnïaeth ag amodau yn llai cyffredin. (Wiles, 2020). Gall defnydd cynyddol o VA hefyd arwain at ganlyniadau eraill i bobl dan amheuaeth, dioddefwyr a rheolaeth ymchwiliol. Fodd bynnag, nid yw ansawdd data ar VA yn ddigonol i asesu hyn.

6 Sylwadau i gloi

Mae'r papur hwn wedi archwilio ystod o dystiolaeth ynghylch defnyddio PCB ac effaith diwygiadau PCA 2017. Ymgwymerwyd ag ef i gefnogi adolygiad y Llywodraeth o PCB. Mae'r dystiolaeth a'r data a adolygwyd yn awgrymu bod gan PCB dair prif effaith bosibl. Yn gyntaf ar reoli ymchwiliol, gan ganiatáu i brosesau ymchwiliol yr heddlu weithredu'n effeithlon i gael tystiolaeth, â phwyntiau gwirio clir ar gyfnodau rheolaidd ar ddilyniant achosion. Yn ail, ac wedi'i gysylltu'n agos â'r cyntaf, mae'n darparu llwybr i gynnal llifau gwybodaeth er mwyn cynnal cysylltiad â phobl dan amheuaeth o dan y ddyletswydd i ail-fynychu mewn gorsaf heddlu. Yn drydydd, mae'n darparu dull i osod amodau ar bobl sydd dan amheuaeth ar gyfer amddiffyn tystion, dioddefwyr yn ogystal â phobl sydd dan amheuaeth, ac i annog pobl sydd dan amheuaeth i beidio ag aildroseddu, yn gyffredinol ac yn benodol mewn perthynas â'r achwynydd gwreiddiol.

Mae'r sylfaen dystiolaeth ar PCB yn gyfyngedig. Yn wahanol i rai prosesau'r heddlu yng Nghymru a Lloegr sy'n dod o dan ystadegau cadarn, arferol, a gesglir yn genedlaethol, nid yw'r rhain ar gael ar gyfer PCB. Mae PCB yn gweithredu fel pŵer plismona o fewn y broses ymchwilio - nid yw'n ymyrraeth wedi'i thargedu. Gallai hyn esbonio'n rhannol pam nad yw wedi bod yn destun ymchwil werthuso helaeth. Yn ogystal, mae'r amrywiad yn nhriniaeth systemau cyfreithiol domestig rhyngwladol o bobl dan amheuaeth yn golygu nad oes cronfa o lenyddiaeth ymchwil ryngwladol gymharol i dynnu arni. Mae'r dystiolaeth PO yn gysylltiedig, ond gellir dadlau nad yw'n ddigon agos i ganiatáu i'r canfyddiadau hynny gael eu trosglwyddo'n hawdd. Yn olaf, mae'r diwygiadau i PCB wedi digwydd yn erbyn cefndir o newid sylweddol yn natur y troseddau a gofnodwyd, a sut mae'r heddlu'n ymateb iddynt, gan wneud unrhyw asesiad o newid o'r data sydd ar gael yn heriol.

Yn absenoldeb deunydd mwy cadarn, mae'r adolygiad hwn o dystiolaeth wedi tynnu ar y clytwaith o ymchwil a data sydd ar gael. Mae rhai elfennau'n gliriach nag eraill. Yn y cyfnod ar ôl diwygiadau 2017, gostyngodd cyfeintiau PCB yn gyflym ac maent wedi adfer yn fwy diweddar i ryw raddau. Mae'n ymddangos bod amrywiadau yn ymarfer PCB ar lefel y llu wedi bod yn sylweddol cyn y diwygiadau, a chyn belled â bod y data'n caniatáu, mae amrywiadau'n parhau i fodoli. Mae'r dystiolaeth gyfyngedig ar ganfyddiadau dioddefwyr o fuddion PCB fel ffynhonnell cymorth mewn troseddau perthynas agos yn ymddangos yn gadarnhaol. Mae pryderon ymhlith yr heddlu ac ymarferwyr yn bodoli ynghylch colli pwyntiau gwirio clir yn RUI a chanfyddiadau o wanbau rheolaeth ymchwiliol yn gyffredinol. Ac mae awgrymiadau bod newidiadau i PCB, ynghyd â phwysau eraill megis y twf tymor hir mewn tystiolaeth ddigidol araf i'w phrosesu, wedi cyfrannu at ymchwiliadau hwy. Mae'r symudiad tuag at RUI wedi dod â set newydd o bryderon i'r rhai sydd dan amheuaeth ynghylch lefelau cyswilt is yn ymwneud â chynnydd ymchwiliadau.

7 Llyfryddiaeth

Deddf Mechnïaeth (1976) Ar gael yn:

<https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1976/63/contents> [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

Benitez, C., McNeil, E. a Binder, R. (2010) 'Do Protection Orders Protect?' *Journal of the American Academy of Psychiatry and the Law Online*, cyf. 38(3) tt. 376-85

Cape, E. (2016) [What if police bail was abolished?](#) The Howard League for Penal Reform [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

Y Coleg Plismona (2014) [Response to the Consultation on the Use of Pre-Charge Bail: Improving Standards for the Police Forces of England and Wales](#) [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

Y Coleg Plismona (2016) [Adroddiad mechnïaeth: Pre-charge bail – an exploratory study](#) [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

Y Coleg Plismona (2017) [Data mechnïaeth cyn cyhuddo](#) [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

Cordier, R., Chung, D., Wilkes-Gillan, S. a Speyer, R. (2019) 'The Effectiveness of Protection Orders in Reducing Recidivism in Domestic Violence: A Systematic Review and Meta-Analysis'. *Trauma, Violence & Abuse*. Sage Publishing, UDA

CPS.gov.uk (2019) [Mechnïaeth](#) [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

Deddf Cyfiawnder Troseddol (2003) Ar gael yn:

<https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/44/contents> [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

Dowling, C., Morgan, A., Hulme S., Manning, M. a Wong, G. (2018a) 'Protection orders for domestic violence: A systematic review'. *Tueddiadau a materion mewn troseddu a chyfiawnder troseddol*. Rhif 551. Canberra: Sefydliad Troseddeg Awstralia

Dowling, C., Morgan, A., Boyd, C. a Voce, I. (2018b) *Policing domestic violence: A review of evidence*. Adroddiad Ymchwil rhif 13 Canberra: Sefydliad Troseddeg Awstralia

Feist, A., Ashe, J., Lawrence, J., McPhee, D. a Wilson, R. (2007) [Investigating and detecting recorded offences of rape](#). Adroddiad Ar-lein y Swyddfa Gartref 18/07 [gwelwyd ar 7 Ionawr 2021]

Gov.uk (2019) [Y Llywodraeth yn cyhoeddi cynlluniau i adolygu cyfraith mechnïaeth cyn cyhuddo](#) [gwelwyd ar 7 Jan 2021]

Hales, G. a Wiggett, I. (2017) [Pre-charge bail reforms: Context and consequences](#) [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

Hillier, J. a Kodz, J. (2012) [The police use of pre-charge bail: An exploratory study](#) Asiantaeth Genedlaethol Gwella Plismona [gwelwyd ar 7 Ionawr 2021]

HMIC [Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi] (2015) [Increasingly everyone's business: A progress report on the police response to domestic abuse](#) [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

HMICFRS a BritainThinks (2020) [Ymchwil i brofiadau dioddefwyr a'r rhai dan amheuaeth o newidiadau i'r Ddeddf Plismona a Throsedd 2017](#) [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

HMICFRS ac HMCPSI (2020) [Pre-charge bail and released under investigation: Striking a balance](#) [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

HMICFRS (2018) [PEEL: Police effectiveness 2017](#) [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

HMICFRS (2019) [The police response to domestic abuse: An update report](#) [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

Holt, V., Kernic, M., Wolf, M., a Rivara, F. (2003) 'Do protection orders affect the likelihood of future partner violence and injury'. *American Journal of Preventive Medicine*, cyf. 24(1), 16-21

Y Swyddfa Gartref (2014) [Pre-charge bail: A Consultation on the Introduction of Statutory Time Limits and Related Changes](#) [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

Y Swyddfa Gartref (2015) [Pre-Charge Bail. Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghori a'r Cynigion ar gyfer Deddfwriaeth](#) [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

Y Swyddfa Gartref (2016) [Domestic Violence Protection Orders \(DVPO\): One year on – Home Office assessment national roll-out](#) [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

Y Swyddfa Gartref (2018) [Pwerau a gweithdrefnau'r heddlu, Cymru a Lloegr, y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2018](#) [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

Y Swyddfa Gartref (2019) [Pwerau a gweithdrefnau'r heddlu, Cymru a Lloegr, y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019](#) [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

Y Swyddfa Gartref (2020a) [Pwerau a gweithdrefnau'r heddlu, Cymru a Lloegr, y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020](#) [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

Y Swyddfa Gartref (2020b) [Tablau data agored troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu a chanlyniadau](#) [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

Y Swyddfa Gartref (2020c) [Canlyniadau troseddau yng Nghymru a Lloegr 2019 i 202](#) [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

Hotaling, G. a Buzawa, E. (2003) [Victim Satisfaction with Criminal Justice Case Processing in a Model Court Setting](#). Yr Adran Cyfiawnder Troseddol. Prifysgol Massachusetts [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

Pwyllgor Materion Cartref Tŷ'r Cyffredin (2015) [Materion Cartref - Yr Ail Adroddiad ar bymtheg: Mechnïaeth yr heddlu](#) [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

Hucklesby, A. (2001) 'Police Bail and the Use of Conditions'. *Cyfiawnder troseddol*, cyf. 1(4), tt.441-463

Hucklesby, A. (2015) [Pre-charge bail: an investigation of its use in two police forces](#) [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

Hucklesby, A. a Marshall, E. (2000) 'Tackling Offending on Bail'. *The Howard Journal of Criminal Justice*, cyf. 39(2), tt.150-170

Hunter, R., Burton, M. a Trinder, E. (2020) [Assessing Risk of Harm to Children and Parents in Private Law Children Cases \(Adroddiad Terfynol\)](#). Y Weinyddiaeth Gyfiawnder [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

Kelly, L., Adler, J., Horvath, M., Lovett, J., Coulson, M., Kernohan, D., Gray, M., Hillier, J. a Nicholas, S. (2013) [Evaluation of the Pilot of Domestic Violence Protection Orders](#) [7 Ion 2021]

Kothari, C., Rhodes, K., Wiley, J., Fink, J., Overholt, S., Dichter, M., Marcus, S. a Cerulli, C. (2012) 'Protection Orders Protect Against Assault and Injury'. *Journal of Interpersonal Violence*, cyf. 27(14), tt.2845-2868

Learmonth, S. (2018) [A system to keep me safe: An exploratory study of bail use in rape cases](#). Traethawd Hir: Prifysgol Metropolitan Llundain [7 Ionawr 2021]

mygov.scot (2020) [Being arrested: your rights](#) [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

Logan, T. a Walker, R. (2009) 'Civil Protective Order Outcomes'. *Journal of Interpersonal Violence*, cyf. 24(4), tt.675-692

Logan, T., Cole, J., Shannon, L., a Walker, R. (2007) 'Relationship characteristics and protective orders among a diverse sample of women'. *Journal of Family Violence*, cyf. 22, tt. 237–246

Logan, T., Shannon, L., a Cole, J. (2007) 'Stalking victimization in the context of intimate partner violence'. *Violence and Victims*, cyf. 22(6), tt. 669–683

Logan, T., Walker, R., Shannon, L. a Cole, J. (2008) 'Factors Associated with Separation and Ongoing Violence among Women with Civil Protective Orders'. *Journal of Family Violence*, cyf. 23(5), tt. 377-385

Martin, R. (ar ddod) *Pre-Charge Bail Research Project: Summary of Descriptive Findings*

McFarlane, J., Malecha, A., Gist, J., Watson, K., Batten, E., Hall, I., et al. (2004) 'Protection orders and intimate partner violence: An 18-month study of 150 black, Hispanic, and white women'. *American Journal of Public Health*, cyf. 94(4), tt. 613–618

Morgan, P. a Henderson, P. (1998) *Remand Decisions and Offending on Bail*. Llundain: Y Swyddfa Gartref

[Penaethiaid yr heddlu'n cyfarwyddo swyddogion i osod amodau mechnïaeth sy'n amddiffyn dioddefwyr a phobl agored i niwed](#) [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) (2019) [Cam-drin domestig a'r system cyfiawnder troseddol - tablau Atodiad](#) [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) (2020) [Yr holl ddata sy'n ymwneud â cham-drin domestig a'r system cyfiawnder troseddol, Cymru a Lloegr: Tachwedd 2020](#) [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

Phillips, C. a Brown, D. (1998) *Entry into the criminal justice system: a survey of police arrests and their outcomes*. Astudiaeth Ymchwil y Swyddfa Gartref (185). Y Swyddfa Gartref, Cyfarwyddiaeth Ymchwil ac Ystadegau, Llundain, DU

Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE) (1984) Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1984/60/contents> [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

Deddf Plismona a Throsedd (2017) Ar gael yn: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2017/3/contents/enacted> [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

Raine, J. a Willson, M. (1995) 'Just Bail at the Police Station?' *Journal of Law and Society*. Rhag.1995, Cyf. 22(4), tt. 571-585

Raine, J. a Willson, M. (1997) 'Police bail with conditions: Perspectives on the Use, Misuse and Consequences of a New Police Power'. *British Journal of Criminology*. Cyf. 37(4), tt. 593-607

Richardson, V. et al. (ar ddod) *Assessing the increase in digital evidence in police investigations from appeal case summaries*

Sleath, E., a Smith, L. L. (2017) 'Understanding the factors that predict victim retraction in police reported allegations of intimate partner violence'. *Psychology of Violence*, cyf. 7(1), tt. 140-149.

The Centre for Women's Justice [Canolfan Cyfiawnder Menywod] (2019) [Super-complaint: police failure to use protective measures in cases involving violence against women and girls](#) [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

Cymdeithas y Gyfraith (2019) [Release under investigation](#) [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

Wiles, P. (2020) [Comisiynydd ar gyfer cadw a defnyddio deunydd biometrig](#). Adroddiad Blynyddol 2019 [gwelwyd ar 7 Ion 2021]

Atodiad A. Gwybodaeth o awdurdodaethau cymharol

Cynhaliodd Comisiwn y Gyfraith Gogledd Iwerddon (GI) ymgynghoriad ar fechnïaeth yn 2010 a chyhoeddodd y canfyddiadau mewn adroddiad yn 2012 (Comisiwn Cyfraith Gogledd Iwerddon, 2010; 2012). Fe ganfu, ar adeg ysgrifennu, mai dim ond dwy awdurdodaeth oedd â phŵer yr heddlu i roi mechnïaeth cyn cyhuddo - Cymru a Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae hyn oherwydd yr ystyrid ei fod yn erbyn hawliau pobl dan amheuaeth i gyfyngu ar eu rhyddid sifil pan nad oeddent wedi'u cyhuddo o drosedd (ibid.). Argymhellodd yr adolygiad y dylid diwygio PCB oherwydd 'cymhlethdod, ansicrwydd ac anghysondeb' y system, yn arbennig yr anghysondebau rhwng mechnïaeth yr heddlu a mechnïaeth y llys (ibid.).

Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith Gogledd Iwerddon:

- cael gwared ar y pŵer i atodi amodau i PCB
- cael gwared ar y ddyletswydd i ildio i'r ddalfa a'r drosedd o fethu ag ildio, gosod gofyniad i fynd i orsaf heddlu yn unig
- creu hawl i adolygu'r penderfyniad i ryddhau ar fechnïaeth.

Fodd bynnag, aeth Comisiwn y Gyfraith Gogledd Iwerddon yn anweithredol cyn y gellid bwrw ymlaen ag unrhyw un o'i argymhellion. Felly, ni weithredwyd argymhellion ynghylch PCB erioed mewn gwirionedd ac mae Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon (PSNI) yn parhau i ddefnyddio PCB fel o'r blaen. Mae amodau mechnïaeth yn fwy cyfyngedig yng Ngogledd Iwerddon na Chymru a Lloegr (PSNI, 2019).

Pasiodd yr Alban Ddeddf Cyfiawnder Troseddol (Yr Alban) (2016), a gyflwynodd bŵer 'rhyddhad ymchwiliol'. Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i'r heddlu ryddhau rhywun sydd dan amheuaeth o'r ddalfa heb gyhuddiad lle mae angen ymholiadau pellach. Gellir cymhwyso amodau i'r datganiad hwn, yn debyg i PCB, megis gwahardd unigolion rhag mynd i rai lleoedd (mygov.scot, 2020)

Atodiad B. Data ar gael ar gyfeintau PCB cyn ac ar ôl y diwygiadau

Ffynhonnell	Cwmpas	Cyfnod amser	Nifer wedi'u rhoi ar PCB	% o'r rhai a arestiwyd wedi'u rhyddhau ar PCB
Y Swyddfa Gartref (2020)	40 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr	1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020	153,527	Amherthnasol
Y Swyddfa Gartref (2019)	41 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr	1 Ebrill 2018 i 31 Mawrth 2019	86,628	Amherthnasol
Cymdeithas y Gyfraith (2019)	29 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr	3 Ebrill 2018 i 2 Ebrill 2019	32,283	Amherthnasol
Cymdeithas y Gyfraith (2019)	29 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr	3 Ebrill 2016 i 2 Ebrill 2017	203,228	Amherthnasol
Y Swyddfa Gartref (2018)	17 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr	1 Ebrill 2017 i 31 Maw 2018	16,491	Amherthnasol
Coleg Plismona (2017)	30 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr	Maw 2017 (un mis)	13,452	26%
Coleg Plismona (2016)	26 o heddluoedd	Ebrill 2017 i Faw 2014	300,712	31%
Y Swyddfa Gartref (2015) - data gwreiddiol gan y Coleg Plismona	Darparodd 12 heddlu ddata ac yna uwchraddiwyd y ffigurau	Ebrill 2017 i Faw 2014	404,000	Amherthnasol
Pwyllgor Materion Cartref Tŷ'r Cyffredin (2015)	Ni roddwyd	Amherthnasol	303,000	31%
Y Swyddfa Gartref (2014) - data gwreiddiol gan y BBC	40 o heddluoedd ond wedi'i uwchraddio gan y	2013 i 2014	78,679	Amherthnasol


Mechnïaeth cyn cyhuddo: Trosolwg o'r dystiolaeth

Ffynhonnell	Cwmpas	Cyfnod amser	Nifer wedi'u rhoi ar PCB	% o'r rhai a arestiwyd wedi'u rhyddhau ar PCB
	Swyddfa Gartref			
Ymarfer casglu data ACPO/NPIA (Hillier & Kodz, 2012)	Darparodd 24 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr rywfaint o ddata, â 12 heddlu'n dychwelyd yr holl wybodaeth y gofynnwyd amdani	Hydref 2010 i Fawrth 2011 (chwe mis)	Amherthnasol	Rhyddhawyd 33% o'r rhai a gymerwyd i'r ddalfa ar PCB

^(a) Mae'r ffigurau hyn wedi cael eu graddio'n genedlaethol trwy nifer yr arestiadau am droseddau hysbysadwy fesul llu, yn ôl cyhoeddiad Pwerau a Gweithdrefnau yr Heddlu C&LI 2012/13.

Atodiad C. Graffiau ychwanegol ar y defnydd o PCB ac RUI


Ffigur 6: Nifer yr unigolion a roddwyd ar PCB cyn ac ar ôl y diwygiadau (blynyddoedd yn dod i ben 2 Ebrill 2017 a 2018) ar gyfer heddluoedd dethol^(a)



Ffynhonnell: Cymdeithas y Gyfraith, 2019

(a) Nid yw'r siart hon yn cynnwys data gan Heddlu Metropolitaidd Llundain.

Ffigur 7: Cymhareb amcangyfrifedig o gyfeintiau PCB i arestiadau cyn ac ar ôl y diwygiadau yn 2016/17 a 2017/18^(a) ar gyfer 28 o luoedd



Ffynhonnell: Cymdeithas y Gyfraith, 2019; Y Swyddfa Gartref, 2020a

(a) Mae gwahaniaeth o ddau ddiwrnod rhwng yr amserleni ar gyfer y data arestio a gasglwyd ar gyfer cyhoeddiad Pwerau a Gweithdrefnau Heddlu'r Swyddfa Gartref (1 Ebrill i 31 Mawrth) a'r data Rhyddid Gwybodaeth a ddarperir gan Gymdeithas y Gyfraith (3 Ebrill i 2 Ebrill)

Atodiad D. Archwilio'r sylfaen dystiolaeth ehangach: mechnïaeth ôl-gyhuddiad, mechnïaeth llys a POs

D.1 Ymchwil ar effeithiolrwydd mechnïaeth ôl-gyhuddiad neu fechnïaeth llys

Mae ymchwil ar effeithiolrwydd mechnïaeth ôl-gyhuddiad neu fechnïaeth llys yn canolbwyntio i raddau helaeth ar p'un a gafodd amodau eu torri a throddu ar fechnïaeth. Canfu Raine a Wilson (1995) yn eu cyfweiliadau â diffynydion fod amrywiaeth o ymatebion i amodau penodol ynghlwm wrth eu mechnïaeth ôl-gyhuddiad. O'r 79 o bobl a gafodd eu cyfweld, nododd mwyafrif (54%) eu bod yn cydymffurfio â'u hamodau. Nododd 44% fod eu hamodau wedi 'eu helpu i gadw allan o drafferth'. Datgelodd cyfweiliadau hefyd fod diffynydion yn sylweddoli nad oedd amodau mwy cyffredinol fel gwahardd o'r dref yn cael eu gorfodi'n dda. Nododd dros hanner y sampl eu bod yn gwybod (neu wedi dysgu erbyn diwedd eu cyfnod mechnïaeth) i beidio â disgwyl gorfodaeth gan yr heddlu pe byddent yn cael eu dal yn torri eu hamodau.

Ymchwiliodd Hucklesby a Marshall (2000) i effaith Adran 26 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus (CJ&PO) 1994 ar benderfyniadau ynadon i remandio a ddileodd y rhagdybiaeth o fechnïaeth i ddiffynydion sydd, yn ôl y sôn, wedi cyflawni troseddau ar fechnïaeth. Fe wnaethant ddadansoddi data am gyfnodau cyn ac ar ôl gweithredu'r Ddeddf yn un o'r llysoedd a ddefnyddir gan y Prosiect Proses Mechnïaeth³¹ (llys ynadon Caerlŷr). Fe wnaethant ganfod nad oedd darpariaethau mechnïaeth yn cael fawr o effaith ymarferol ar nifer y diffynydion yr honnir eu bod wedi cyflawni troseddau ar fechnïaeth a oedd wedyn yn cael eu cadw yn y ddalfa. Fodd bynnag, fe wnaethant nodi cynnydd yn nifer y diffynydion hynny y rhoddwyd mechnïaeth iddynt ag amodau. Gwelwyd newidiadau mewn penderfyniadau remandio ar gyfer dwy garfan o ddiffynydion: y rhai hynny a gyhuddwyd o droseddau difrifol a oedd eisoes â hanes mechnïaeth, a diffynydion a gyhuddwyd o droseddau cerbydau a byrgleriaeth.

Gwerthusodd Morgan a Henderson (1998) y Prosiect Proses Mechnïaeth. Rhedodd y prosiect mewn pum ardal llys a chasglwyd data ym 1993 a 1994. Cyflwynwyd gwahanol fesurau a mentrau yn y gwahanol ardaloedd. Dangosodd yr ymchwil fod y prosiect wedi dangos rhai effeithiau cadarnhaol â dwy ardal (ardal Horseferry Road a Chaerlŷr), a

³¹ Y Prosiect Proses Mechnïaeth a sefydlwyd i wella maint ac ansawdd y wybodaeth sydd ar gael i wneuthurwyr penderfyniadau remandio fel y gallent wneud asesiad mwy cywir o'r risg o droddu ar fechnïaeth.

ddangosodd ostyngiad yn y cyfraddau troseddu ar fechnïaeth. Fodd bynnag, dim ond ychydig o newid a ddangoswyd y tair arall. Roeddent yn priodoli'r gostyngiad yn ardaloedd Horseferry Road i'r ffaith bod mwy o bobl yn cael eu cadw yn y ddalfa (cynyddodd cyfraddau'r dalfa o chwech y cant dros yr un cyfnod amser). Priodolwyd y gostyngiad yng Nghaerlŷr i welliannau a wnaed megis mwy o bwyslais ar hyfforddi ynadon. Nododd yr astudiaeth hefyd rai o nodweddion diffynyddion a oedd â chyfraddau troseddu uwch pan oeddent ar fechnïaeth. Roedd y rhain yn cynnwys: dim cartref sefydlog, wedi'i gyhuddo o ddwyn ceir neu fyrgleriaeth, 17 oed ac yn iau, yn ddi-waith, y rhai a arhosodd am fwy na 3 mis cyn eu treial, a'r rheini â dedfryd neu gofnod gwarchodol blaenorol am dorri mechnïaeth. Canfuwyd cyfraddau is o droseddu ar fechnïaeth ar gyfer y rhai a oedd wedi'u eu cynnwys: mewn cyflogaeth, a oedd wedi aros am lai na mis cyn y treial, a gawsant eu cyhuddo o ymosod neu dwyll, ac a oeddent yn 21 oed neu'n hŷn.

D.2 Y sylfaen dystiolaeth ar effeithiolrwydd gorchmynion amddiffyn

Mae gorchmynion amddiffyn (POs) yn feddyginiaethau cyfraith sifil sydd yn ceisio darparu amddiffyniad i dioddefwyr ac yn amddiffyn y cyhoedd rhag erledigaeth bellach bosibl. Gellir wneud cais am POs gan y dioddefwyr eu hunain i'r llysoedd, yr heddlu ar ran y dioddefwyr neu'r llys ar ran y dioddefwyr. O'u cymharu â PCB, y gellir ei osod am unrhyw drosedd, dim ond ar gyfer rhai mathau o droseddau y rhoddir POs (er enghraifft, yng Nghymru a Lloegr mae DVPOs a roddir am droseddau trais domestig). Mae amrywiaeth eang o POs yn amrywio o'r rhai sy'n ceisio amddiffyn yn erbyn trais domestig i waharddebau gang (gweler Atodiad E).

Mae PCB a POs yn rhannu rhai nodweddion tebyg. Er enghraifft mae'r ddau yn:

- Gosod cyfyngiadau penodol ar unigolion e.e. dim cyswllt â'r dioddefwr neu eithriad rhag mynd i mewn i rai lleoliadau neu gyfeiriadau.
- Nod y ddau yw amddiffyn tyst(ion) a dioddefwr(dioddefwyr) ac fe'u defnyddir yn helaeth i leihau niwed i'r rhai sydd mewn perygl.
- Yn yr un modd ag y mae'r heddlu'n gweithredu amodau PCB, gall yr heddlu wneud cais am rai PO's - e.e. DVPOs.

Er bod PCB a PO's yn debyg mewn rhai ffyrdd, mewn agweddau eraill, mae'r gwahaniaethau rhyngddynt yn sylweddol. Yn benodol, (a) mewn rhai awdurdodaethau, gall toriadau (sy'n cyfateb i dorri mechnïaeth) arwain at ymateb cosbol (b) mae hyd y PO fel arfer yn hwy na PCB (c) mae PO's yn tueddu i fod â chwmpas cyfyngedig o ran mathau penodol o droseddau a (d) mae PO's fel arfer yn cael eu cynhyrchu gan dioddefwyr yn hytrach nag fel ymateb CJS awtomatig a gychwynnir gan yr heddlu. Yn y pen draw, mae'r gwahaniaethau hyn yn ei gwneud yn anodd cyfieithu trosi yn uniongyrchol ar effeithiolrwydd PO's drosodd i PCB. Mae'n parhau i fod yn aneglur pa gynhwysyn gweithredol sy'n gwneud PO's yn effeithiol mewn rhai amgylchiadau ac ar gyfer rhai dioddefwyr. Yn benodol, mae'n anodd dad-elfennu'r natur a allai fod yn ganolog y gallai sancsiynau llymach ei chwarae yn effeithiolrwydd PO's

Mae'r sylfaen dystiolaeth ar effeithiolrwydd POs yn awgrymu bod rhai sefyllfaoedd lle gallai PO fod yn effeithiol wrth leihau aildroseddu ac amddiffyn y dioddefwr. Er mwyn asesu'r gymaroldeb rhwng PO's a PCB, roedd pedair astudiaeth 'graidd', a ymddangosodd ar draws dau adolygiad systematig, yn destun archwiliad manylach (Dowling et al., 2018a; Cordier et al., 2019). Cynhaliwyd yr astudiaethau hyn gan Kothari et al. (2012), McFarlane et al. (2004), Holt et al. (2003) a phapurau lluosog gan TK Logan a chydweithwyr a dynnodd ar yr un sampl (Logan, Cole, Shannon a Walker, 2007; Logan, Shannon a Cole, 2007; Logan et al., 2008; Logan a Walker, 2009). Amlinellir yr astudiaethau 'craidd' hyn yn Atodiad F. Adroddir hefyd am astudiaeth gan Kelly et al. (2013) o DVPOs yng Nghymru a Lloegr gan ei bod yn un o'r ychydig astudiaethau sydd wedi'i lleoli yn y DU.

D.3 Ail-droseddu

Mae adolygiadau systematig (Dowling et al., 2018a; Cordier et al., 2019) yn darparu rhywfaint o dystiolaeth y gall POs fod yn effeithiol o ran lleihau atgwmpo. Fe wnaeth Dowling et al. (2018a) gynnal meta-ddadansoddiad o bedair astudiaeth gan ganfod bod PO's yn gysylltiedig â gostyngiad cyffredinol bach ond ystadegol arwyddocaol mewn ail-erledigaeth ym maes trais domestig difrifol. Roedd tair o'r astudiaethau hyn wedi'u lleoli yn yr UD (Holt et al., 2003; McFarlane et al., 2004; Kothari et al., 2012). Defnyddiodd pob un o'r astudiaethau hyn grwpiau rheoli i brofi effaith PO's mewn achosion trais yn cynnwys partner agos (IPV). Fe wnaeth Holt et al. (2003) ganfod bod PO's yn gysylltiedig â llai o debygolrwydd o IPV corfforol ac anghorfforol dilynol. Yn yr un modd, yn seiliedig ar gyfweiliadau â 150 o fenywod a oedd wedi gwneud cais am PO yn Texas, canfu McFarlane et al. (2004) fod menywod wedi nodi lefelau sylweddol is o IPV ac aflonyddu hyd at 18 mis ar ôl gwneud cais am PO. Fe wnaeth Kothari et al. (2012) fesur effeithiolrwydd PO's o ran lleihau ymosodiadau a chanlyniadau cysylltiedig ag anafiadau yn yr UD. Fe wnaethant ganfod bod dioddefwyr IPV â PO's wedi cael cryn dipyn yn llai o ymweliadau ag adran brys a llawer llai o ddigwyddiadau heddlu ar ôl PO nag o'r blaen.

Yng nghyd-destun Cymru a Lloegr, canfu Kelly et al. (2013) fod DVPOs yn gysylltiedig â chyfraddau is o erledigaeth. Yn eu gwerthusiad o'r cynllun peilot DVPO mewn tri llu, fe wnaethant ganfod bod DVPOs yn fwyaf effeithiol wrth leihau ail-erledigaeth ar gyfer 'achosion cronig' (ibid.). Defnyddiodd yr awduron ddata'r heddlu a galwadau allan i fesur ail-erledigaeth, er efallai nad yw'r rhain yn cipio maint llawn yr ail-erledigaeth.

Canfu astudiaethau cadarn fod rhai dioddefwyr yn parhau i ddioddef trais neu doriadau. Canfu Logan a Walker (2009) fod 58% o fenywod wedi profi toriadau PO ac fe ganfu Kothari et al. (2012) fod bron i hanner (49%) y menywod â gorchmynion PO wedi riportio toriadau.

Fe ganfu Kelly et al. (2013) fod llai nag 1% o DVPOs wedi'u torri. Ar ôl i DVPOs gael eu cyflwyno'n genedlaethol yng Nghymru a Lloegr yn 2014, nododd HMIC (2015) fod 17% o DVPOs a roddwyd gan y llysoedd wedi cael eu torri. Yn yr un modd, yn eu hasesiad blwyddyn o DVPOs, nododd y Swyddfa Gartref (2016) fod 18% o DVPOs wedi'u torri ers eu gweithredu. Mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu ei bod yn debygol y bu tan-riportio

am doriadau yn astudiaeth Kelly et al. (2013). At hynny, ar sail ymchwil arall, mae'n debygol bod data ar doriadau a gofnodwyd gan yr heddlu yn tan-riportio lefel wirioneddol y toriadau. Canfu astudiaeth Hotaling a Buzawa (2003) fod oddeutu hanner y toriadau wedi cael eu riportio i'r heddlu.

Roedd yn ymddangos bod rhai grwpiau mewn mwy o berygl o gyflawni toriad PO - troseddwyr â hanes o stelcio, trais neu weithredoedd troseddol, a dioddefwyr â statws economaidd-gymdeithasol is (Logan a Walker, 2009; Benitez et al., 2010; Cordier et al., 2019)

D.3.1 Canfyddiadau dioddefwyr o effeithiolrwydd a diogelwch

Efallai na fydd canolbwyntio ar doriadau yn cipio holl fuddion posibl POs. Fe wnaeth Cordier et al. (2019) amlygu na all defnyddio atgwympo i fesur effeithiolrwydd POs gyfrif am yr holl gymhlethdodau sy'n gysylltiedig â lleihau cam-drin domestig. Mae ymdeimlad diogelwch ac effeithiolrwydd canfyddedig dioddefwr hefyd yn bwysig i'w hystyried. Fe wnaeth ymgeisio am PO wneud i rai dioddefwyr deimlo fel bod rhywbeth yn cael ei 'wneud', ac efallai y byddai cyhoeddi PO yn cael effaith fwy cadarnhaol ar ryngweithio rhwng dioddefwyr a'r heddlu. Mae'r buddion canfyddedig hyn hefyd wedi'u nodi o ymchwil ansoddol gyda dioddefwyr yr oedd eu hachosion yn ymwneud â'r rhai dan amheuaeth yn derbyn amodau o dan PCB (gweler HMICFRS a BritainThinks 2020).

Archwiliodd Logan a Walker (2009) ddau ddimensiwn o effeithiolrwydd PO - toriadau ar POs a chanfyddiadau menywod o effeithiolrwydd a diogelwch PO - ar draws pedair awdurdodaeth yn yr UD. Fe wnaethant hefyd archwilio'r ffactorau sy'n fwyaf cysylltiedig â'r canfyddiadau hyn. Ar y cyfan, fe wnaethant ganfod bod y menywod yn canfod bod POs yn hynod (51%) neu'n weddol effeithiol (27%), ac fe wnaethant ddweud eu bod yn teimlo'n hynod (43%) neu'n weddol (34%) ddiogel. Nid oedd oddeutu un o bob pump (22%) yn teimlo eu bod yn effeithiol ac nid oeddent yn teimlo'n ddiogel hyd yn oed gyda PO. Gan ddefnyddio'r un sampl o fenywod, fe wnaeth Logan et al. (2007) ganfod, er bod y rhan fwyaf o'r menywod yn eu hastudiaeth wedi nodi bod y PO yn 'effeithiol', nododd bron i un o bob pedair menyw fod eu partner wedi torri'r gorchymyn. Mae hyn yn awgrymu y gall dioddefwyr ganfod bod y PO yn effeithiol hyd yn oed os yw trais yn parhau, ac mae'n amlygu'r heriau ynghylch asesu effeithiolrwydd ar sail cyfraddau ail-erledigaeth yn unig.

Yn eu gwerthusiad o DVPOs peilot yng Nghymru a Lloegr, fe wnaeth Kelly et al. (2013) gynnal cyfweliadau â dioddefwyr-oroeswyr. Fe wnaethant ganfod bod DVPOs yn gyffredinol yn cael eu hystyried yn gadarnhaol, er nad oedd lleiafrif o ddiodeswyr yn teimlo bod DVPOs yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau hyn yn seiliedig ar faint sampl bach o oroeswyr (cyfwelwyd 16 o ddiodeswyr-oroeswyr yn wreiddiol, â naw yn cwblhau cyfweliadau dilynol). Yn ogystal, roedd mwyafrif y diodeswyr a gafodd eu cyfweld wedi derbyn cymorth gan wasanaethau cymorth ochr yn ochr â DVPOs. Gall hyn wyro barn ynghylch pa mor effeithiol yw DVPOs, gan mai dim ond dwy ran o dair o'r cynllun peilot a dderbyniodd wasanaethau cymorth ochr yn hochr â nhw. Mae'r

canfyddiadau hyn yn awgrymu bod DVPOs yn debygol o fod yn fwy effeithiol wrth gael eu cynnig ochr yn ochr â gwasanaethau cymorth.

Mae safbwyntiau dioddefwyr wedi chwarae rhan allweddol yn y beirniadaethau ynghylch diwygiadau 2017 (CWJ, 2019; Learmonth, 2018). Dangosodd ymchwil a wnaed gan Logan a Walker (2009) fod mwyafrif y menywod a oedd yn derbyn PO yn eu canfod yn ddiogel ac yn effeithiol. Felly hyd yn oed pan barhaodd trais, yn dilyn cyhoeddi'r PO, roedd dioddefwyr yn gwerthfawrogi'r rhyngweithio cynyddol rhwng dioddefwyr a'r heddlu a ddaeth o ganlyniad i PO. Mae hyn yn bwysig i bolisi PCB oherwydd gall hyd yn oed cyhoeddi amodau mechnïaeth wneud i'r dioddefwr deimlo'n ddiogel. Mae hyn yn cysylltu ag ymchwil ar ddefnydd PCB mewn achosion treisio (Learmonth, 2018). Roedd dioddefwyr yn teimlo eu bod wedi'u dilysu pan gyhoeddodd yr heddlu amodau mechnïaeth gan ei fod yn gwneud eu hachos yn gredadwy, ac roeddent yn teimlo bod yr heddlu yn eu credu.

Atodiad E. Gorchmynion amddiffyn sifil (CPOs) a gwaharddebau yng Nghymru a Lloegr

CPO / Gwaharddeb	Pwy sy'n gwneud cais?	Pa lys?	Hyd y gorchymyn	Wedi'i roi ar euogfarn?	Canlyniad os oes toriad	Crynodeb
Gorchymyn Amddiffyn Trais Domestig (DVPO)	Mae swyddog heddlu'n gwneud cais i'r llys ar ran y dioddefwr	Ynadon	28 diwrnod	Na	<p>Mae torri DVPO yn doriad sifil o orchymyn llys.</p> <p>Y gosb am dorri gorchymyn sifil yw £50 am bob diwrnod y mae'r person yn methu â chydymffurfio â'r gorchymyn, hyd at uchafswm o £5000 neu 2 fis o garchar.</p>	Mae Hysbysiad Gwarchod Trais Domestig (DVPN) a roddir gan yr heddlu i berson y maent yn credu'n rhesymol ei fod wedi bod yn dreisgar yn erbyn dioddefwr yn parhau am 48 awr. Yn ystod yr amser hwn, mae'r heddlu'n gwneud cais i Lys Ynadon am DVPO a all osod cyfyngiadau ar berson am 28 diwrnod e.e. dim cyswllt neu fynd i gyfeiriad penodol.
Gorchymyn Peidio ag Ymyrryd (NMO)	Mae'r dioddefwr trais domestig (DV) ei hunan yn gwneud cais i'r llys	Teulu	Cyhoeddir fel rheol am gyfnod penodol. Nid oes cyfyngiad ar faint o amser y gellir ymestyn	Na	<p>Gall yr achwynydd naill ai ffonio'r heddlu i ddelio â'r toriad o fewn yr awdurdodaeth droseddol, neu gallant wneud cais i gael y person wedi ymrwymo i'r ddalfa am gais dirmyg yn yr awdurdodaeth sifil.</p> <p>Mae'r ddwy</p>	Nod NMO yw atal eich partner neu gyn-bartner rhag defnyddio neu fygwth trais yn eich erbyn chi neu'ch plentyn, neu eich dychryn, aflonyddu neu eich poeni, er mwyn sicrhau iechyd, diogelwch a lles eich hun a'ch plant.

CPO / Gwaharddeb	Pwy sy'n gwneud cais?	Pa lys?	Hyd y gorchymyn	Wedi'i roi ar euogfarn?	Canlyniad os oes toriad	Crynodeb
			NMOs		awdurdodaeth yn gwbl wahanol, ac ni fydd erlynwyr yn cymryd rhan mewn achos sifil. Mae'r cosbau am dorri amodau'n amrywio o ddirwyon, gorchmynion cymunedol a dedfrydau o garchar. Uchafswm o 5 mlynedd o garchar.	
Gorchymyn Meddiannaeth (OO)	Mae'r dioddefwr DV ei hun yn gwneud cais i'r llys	Teulu	Cyhoeddir fel rheol am gyfnod penodol. Nid oes cyfyngiad ar faint o amser y gellir ymestyn OOs.	Na	Nid yw torri gorchymyn yn dramgwydd troseddol oni bai bod pŵer arestio ynghlwm wrth y gorchymyn. Gallai torri OO â phŵer arestio arwain at hyd at 2 flynedd yn y carchar neu ddirwy fawr.	Mae OO yn rheoleiddio pwy all fyw yng nghartref y teulu, a gall hefyd gyfyngu ar eich camdriniwr rhag dod i mewn i'r ardal gyfagos. Gall unrhyw un nad yw'n teimlo'n ddiogel ynghylch parhau i fyw gyda'i bartner, neu'r rhai a adawodd eu cartref oherwydd trais, ond sydd am ddychwelyd a chau allan eu camdriniwr, wneud cais am OO.
Gorchymyn Atal (RO)	Mae'r llys yn ei osod eu hunain	Ynadon a'r Goron	Gall barhau am gyfnod penodol neu am gyfnod amhenodol.	Ie	Uchafswm o 5 mlynedd o garchar. Mae troseddau'n amrywio o ddirwy, gorchmynion cymunedol a dedfrydau o garchar.	Gellir gwneud RO ar euogfarn neu ryddfarn am unrhyw dramgwydd troseddol. Bwriedir i RO fod yn ataliol ac yn amddiffynnol. Yr egwyddor arweiniol yw bod rhaid gweld angen y gorchymyn i amddiffyn person neu bersonau. Felly mae RO yn ataliol, nid yn gosbol. Y prawf i'w ddefnyddio gan y llys cyn gwneud gorchymyn yw a oes angen gorchymyn i amddiffyn y personau a enwir ynddo rhag aflonyddu neu ymddygiad a

CPO / Gwaharddeb	Pwy sy'n gwneud cais?	Pa lys?	Hyd y gorchymyn	Wedi'i roi ar euogfarn?	Canlyniad os oes toriad	Crynodeb
						fydd yn eu rhoi mewn ofn trais.
Gorchymyn Amddiffyn Stelcio (SPO)	Yr heddlu neu'r llysoedd	Ynadon	Leiafswm o 2 flynedd hyd at gyfnod amhenodol (tan orchymyn pellach).	Na	Euogfarn ddiannod - carcharu heb fod yn fwy na 12 mis neu ddirwy neu'r ddau. Ditiad - carchar am dymor nad yw'n hwy na 5 mlynedd neu ddirwy neu'r ddau.	<p>Dylai'r heddlu ystyried gwneud cais am orchymyn lle mae'n ymddangos iddynt:</p> <ul style="list-style-type: none"> • mae'r ymatebydd wedi cyflawni gweithredoedd sy'n gysylltiedig â stelcio • mae'r ymatebydd yn peri risg o stelcio i berson • mae achos rhesymol i gredu bod y gorchymyn arfaethedig yn angenrheidiol i amddiffyn y person arall rhag y risg honno. (Nid oes rhaid i'r person sydd i'w amddiffyn fod wedi dioddef y gweithredoedd a grybwyllwyd uchod.) <p>Gall Llys Ynadon hefyd wneud gorchymyn pan ddiwallir meini prawf tebyg e.e. mae'r dioddefwr wedi riportio ymddygiad stelcio neu gred bod y dioddefwr mewn perygl o niwed.</p> <p>Nid oes angen unrhyw euogfarn ymlaen llaw am droseddau stelcio i wneud cais am orchymyn.</p>
Gwaharddeb gang	Prif swyddog yr heddlu / prif gwnstabl / awdurdod lleol e.e. cynghorau	Llys Sirol neu'r Uchel Lys	Hyd at 2 flynedd	Na	Nid yw torri gwaharddeb o'r math hwn yn dramgwydd troseddol - ymdrinnir ag ef fel dirmyg llys sifil i oedolion a thrwy gynllun statudol ar wahân ar	Rhaid i unrhyw un sy'n ceisio gwneud cais am waharddeb fod â thystiolaeth bod yr ymatebydd wedi cymryd rhan, annog neu gynorthwyo trais sy'n gysylltiedig â gangiau neu ddelio cyffuriau sy'n gysylltiedig â gangiau, a bydd angen iddo

CPO / Gwaharddeb	Pwy sy'n gwneud cais?	Pa lys?	Hyd y gorchymyn	Wedi'i roi ar euogfarn?	Canlyniad os oes toriad	Crynodeb
					gyfer pobl ifanc dan 18 oed.	brofi hyn ar sail y tebygolrwydd yn y llys. Bydd angen i ymgeiswyr hefyd argyhoeddi'r llys bod y waharddeb gang yn angenrheidiol i atal yr ymatebydd rhag cymryd rhan mewn trais sy'n gysylltiedig â gangiau a delio cyffuriau sy'n gysylltiedig â gangiau a/neu i amddiffyn yr ymatebydd rhag trais neu weithgareddau delio cyffuriau o'r fath.
Gorchymyn Ymddygiad Troseddol (CBO)	Llysoedd troseddol	Ynadon, y Goron, leuenctid	Oedolion: 2 flynedd - dim uchafswm ffrâm amser, gallai fod yn amhenodol Pobl ifanc dan 18: 12 mis i 3 blynedd	le	Mae'n dramgwydd troseddol i dorri telerau CBO - hyd at 5 mlynedd o garchar neu ddirwy.	Atal ymddygiad gwrthgymdeithasol gan berson a gafwyd yn euog o unrhyw drosedd arall. Gellir gwneud CBOs yn ychwanegol at ddedfryd. Maent yn disodli Gorchymynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBOs) ar euogfarn.
Gorchymyn Amddiffyn Troseddau Cyllyll (KCPO)	Llysoedd	Ynadon, y Goron, leuenctid	O leiaf 6 mis ond dim mwy na 2 flynedd	le	Y gosb uchaf am dorri yw 6 mis o garchar neu ddirwy neu'r ddau ar euogfarn ddiannod, neu 2 flynedd o garchar, dirwy neu'r ddau, yn dilyn euogfarn ar ddiad.	Cyflwynwyd KCPOs trwy Ddeddf Arfau Ymosodol 2019 a byddant yn rhoi offeryn ychwanegol i swyddogion lywio'r rhai sydd fwyaf mewn perygl i fwrdd o droseddau treisgar. Gall y gorchymynion sifil gael eu gosod gan lysoedd ar unrhyw berson 12 oed neu drosodd y mae'r heddlu'n credu ei fod yn cario cylllell yn rheolaidd, neu ar euogfarn am drosedd sy'n gysylltiedig â chylllell.

CPO / Gwaharddeb	Pwy sy'n gwneud cais?	Pa llys?	Hyd y gorchymyn	Wedi'i roi ar euogfarn?	Canlyniad os oes toriad	Crynodeb
Gorchymyn Atal Troseddu Difrifol (SCPO)	Llysoedd	Llys, Uchel	Uchafswm cyfnod o 5 mlynedd	Ie	Tramgwydd troseddol y gellir ei chosbi â hyd at 5 mlynedd a dirwy ddiderfyn.	<p>Rhaid bod gan y llys sail resymol i gredu y byddai gorchymyn yn amddiffyn y cyhoedd trwy atal, cyfyngu ar neu darfu ar gysylltiad yr unigolyn â troseddau difrifol yng Nghymru a Lloegr.</p> <p>Yn gyffredinol, dylai cais am SCPO ddim ond yn cael ei wneud naill ai ar ôl euogfarn am drosedd ddifrifol neu ar ôl penderfyniad, wrth gymhwyso'r Cod ar gyfer Erlynwyr y Goron, nad yw'r dystiolaeth sydd ar gael yn darparu gobaith realistig o euogfarn, neu na fyddai erlyniad er budd y cyhoedd, am resymau heblaw am argaeledd SCPO.</p>
Gorchymyn Troseddwr Treisgar (VOO)	Mae'r llys yn gwneud gorchmynion ar ôl cwyn gan brif swyddfa'r heddlu	Ynadon	Lleiafswm o 2 flynedd hyd at 5 mlynedd (oni bai ei fod wedi'i adnewyddu neu ei ryddhau)	Na	Mae torri telerau VOO, neu fethu â chydymffurfio â gofynion hysbysu VOO, yn dramgwydd troseddol y gellir ei chosbi â 5 mlynedd o garchar.	<p>Gorchymyn sifil yw VOO a fwriedir i amddiffyn y cyhoedd rhag 'troseddwr cymwys' sy'n peri risg gyfredol o 'niwed treisgar difrifol'.</p> <p>Maent ar gael ar gyfer troseddwr dros 18 oed sydd wedi derbyn o leiaf 12 mis o ddalfa neu orchymyn ysbyty neu a gafwyd yn ddiuog oherwydd gwallgofrwydd am droseddau dynladdiad a llofruddiaeth.</p>
Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol (SHPO)	Cwyn gan yr heddlu neu'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA), Llysoedd	Ynadon, y Goron, Ieuencid, y Llys Apêl	O leiaf 5 mlynedd ac nid oes ganddo uchafswm hyd.	Ie	Mae torri unrhyw waharddiad ar orchymyn yn dramgwydd troseddol, ag uchafswm cosb o 5 mlynedd o garchar.	<p>Fe'i gwneir gan y llys ar gyfer unigolyn sydd wedi'i euogfarnu neu wedi cael rhybuddiad, gan gynnwys rhybuddiadau ieuencid, am drosedd berthnasol ac sy'n peri risg o niwed rhywiol i'r cyhoedd yn y DU neu blant neu oedolion bregus dramor.</p> <p>Y nod yw cyfyngu ar ymddygiad niweidiol troseddwr a gafwyd yn euog o drosedd</p>

CPO / Gwaharddeb	Pwy sy'n gwneud cais?	Pa lys?	Hyd y gorchymyn	Wedi'i roi ar euogfarn?	Canlyniad os oes toriad	Crynodeb
						rywiol neu dreisgar neu drosedd beryglus arall a restrir yn Atodlen 3 neu Atodlen 5 Deddf 2003. Gellir rhoi SHPOs ar adeg y dedfrydu, felly cânt eu gorfodi ar euogfarn neu rybuddiad.
Gorchymyn Risg Rywiol (SRO)	Yr Heddlu	Ynadon, leuenctid	Lleiafswm o 2 flynedd i amhenodol	Na	Mae unrhyw doriad ar y gorchymyn yn dramgwydd troseddol y gellir ei chosbi gan uchafswm o 5 mlynedd o garchar.	Y gwahaniaeth rhwng hyn ac SHPO yw nad oes angen i unigolyn fod wedi cyflawni trosedd berthnasol, nac yn wir, unrhyw drosedd. Gorchymyn sifil y gall yr heddlu ei geisio yn erbyn unigolyn nad yw wedi'i euogfarnu, ei rybuddio ac ati o drosedd ond er hynny y credir ei fod yn peri risg o niwed
Hysbysiad Mesurau Atal ac Ymchwilio i Derfysgaeth (TPIM)	Yr Ysgrifennydd Cartref	Mae'r llys yn adolygu penderfyniad ond nid yw'n nodi ar-lein pa lys yw hwn	Uchafswm o 2 flynedd	Na	Tramgwydd troseddol yn cario'r gosb uchaf o 5 mlynedd o garchar.	Gall osod amodau ar bobl dan amheuaeth o derfysgaeth cyn euogfarnu. Mae'r llys yn adolygu a yw'r amodau ar gyfer gosod TPIMs wedi'u bodloni.
Gorchymyn Atal Masnachu Caethwasiaeth (STPO)	Llysoedd, yr heddlu, swyddog mewnfudo, NCA	Y Goron, Ynadon, leuenctid	Isafswm 5 mlynedd i amhenodol	Ie	Mae torri yn dramgwydd troseddol y gellir ei gosbi â hyd at 5 mlynedd o garchar.	Gellir gwneud STPOs ar ddedfrydu gan lys sy'n delio â diffynnydd trosedd caethwasiaeth neu fasnachu mewn pobl, ac ar gais gan brif swyddog mewn heddlu, swyddog mewnfudo neu Gyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA. Yr amodau yw: <ul style="list-style-type: none"> Mae risg y gallai'r diffynnydd gyflawni trosedd caethwasiaeth neu fasnachu pobl.

CPO / Gwaharddeb	Pwy sy'n gwneud cais?	Pa lys?	Hyd y gorchymyn	Wedi'i roi ar euogfarn?	Canlyniad os oes toriad	Crynodeb
						<ul style="list-style-type: none"> Mae angen gwneud y gorchymyn i amddiffyn pobl yn gyffredinol, neu bersonau penodol, rhag y niwed corfforol neu seicolegol a fyddai'n debygol o ddigwydd pe byddai'r diffynnydd wedi cyflawni trosedd o'r fath.
Gorchymyn Risg Caethwasiaeth a Masnachu Pobl (STRO)	Heddlu, NCA neu swyddog mewn fudo	Ynadon	Dim mwy na 5 mlynedd	Na	Gellir cosbi toriad ar STRO trwy hyd at 5 mlynedd o garchar.	Gorchymyn a wneir os nad yw diffynnydd wedi'i euogfarnu o drosedd masnachu pobl neu gaethwasiaeth ond y credir serch hynny ei fod yn peri risg o niwed ac mae angen amddiffyn eraill.
Gorchymyn Cyfyngu Ffôn ar gyfer Delio mewn Cyffuriau (DDTRO)	Llysoedd, yr heddlu, NCA	Amherthnasol	Gall fod yn amhenodol	Ie	Amherthnasol	<p>Mae DDTRO yn atal rhif ffôn rhag cael ei ddefnyddio neu ei ail-ysgogi.</p> <p>Bydd rhaid i'r heddlu neu'r NCA fodloni llys, ar ôl pwysu a mesur tebygolrwydd, bod y ddyfais wedi'i defnyddio, yn debygol ei bod wedi'i defnyddio, neu'n debygol o gael ei defnyddio mewn cysylltiad â throseddau delio mewn cyffuriau.</p>
Hysbysiad Gwarchod y Gymuned (CPN)	Swyddogion y cyngor, swyddogion heddlu, PSCO, landlordiaid cymdeithasol	Amherthnasol	Cyfnod amser penodedig	Na	Mae methu â chydymffurfio â thelerau CPN yn dramgwydd troseddol. Mae sancsiynau'n cynnwys dirwy, hysbysiad cosb benodedig (FPN), gorchmynion adfer, atafaelu	Wedi'i fwriadu i ddelio â phroblemau neu niwsans penodol, parhaus sy'n cael effaith niweidiol ar ansawdd bywyd y rhai yn yr ardal.

CPO / Gwaharddeb	Pwy sy'n gwneud cais?	Pa lys?	Hyd y gorchymyn	Wedi'i roi ar euogfarn?	Canlyniad os oes toriad	Crynodeb
Gorchymyn Amddiffyn Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGMPO)	Gall unigolyn, awdurdod lleol neu unrhyw berson arall â chaniatâd y llys wneud cais	Teulu	Gall fod yn amhenodol	Na	Yr uchafswm cosb am dorri FGMPO yw 5 mlynedd o garchar.	<p>Mae'n cynnig dull cyfreithiol i amddiffyn a diogelu dioddefwyr a darpar ddioddefwyr anffurfio organau cenhedlu benywod (FGM).</p> <p>Bydd gan y gorchymyn amodau i amddiffyn dioddefwr neu ddioddefwr posib rhag FGM. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ildio pasbort i atal y person sydd mewn perygl rhag cael ei gludo dramor ar gyfer FGM, neu ofynion nad yw unrhyw un yn trefnu i FGM gael ei gyflawni ar yr unigolyn sy'n cael ei amddiffyn.</p>
Gorchymyn Amddiffyn rhag Priodas dan Orfod (FMPO)	Gwneir cais i'r Llys Teulu	Teulu	Gall fod yn amhenodol	Na	Gellir trin toriad ar FMPO fel trosedd neu fel mater sifil dirmyg llys.	Y pwrpas yw amddiffyn person rhag cael ei orfodi i briodas neu rhag unrhyw ymgais i'w orfodi i briodas, neu berson sydd wedi'i orfodi i briodas.
Gorchymyn Amddiffyn Mannau Cyhoeddus (PSPO)	Cynghorau	Awdurdod Lleol	Dim mwy na 3 blynedd	Na	Mae'n dramgwydd troseddol i dorri PSPO. Gellir delio â thoriad ag FPN neu gellir ei erlyn os nad ydynt yn talu'r FPN.	<p>Gall awdurdod lleol wneud PSPO os yw'n fodlon ar sail resymol bod dau amod yn cael eu diwallu.</p> <p>Amod cyntaf:</p> <ol style="list-style-type: none"> mae gweithgareddau a gynhelir mewn man cyhoeddus yn ardal yr awdurdod wedi cael effaith niweidiol ar ansawdd bywyd y rhai yn yr ardal, neu mae'n debygol y bydd gweithgareddau'n cael eu cynnal mewn man cyhoeddus yn yr ardal honno ac y byddant yn cael effaith o'r fath.

CPO / Gwaharddeb	Pwy sy'n gwneud cais?	Pa lys?	Hyd y gorchymyn	Wedi'i roi ar euogfarn?	Canlyniad os oes toriad	Crynodeb
						<p>Ail amod:</p> <ul style="list-style-type: none"> a) mae, neu mae'n debygol o fod, o natur gyson neu barhaus b) mae, neu mae'n debygol o fod, o natur i wneud y gweithgareddau'n afresymol, ac c) mae'n cyfiawnhau'r cyfyngiadau a osodir gan yr hysbysiad.

Atodiad F. Tabl cryno o astudiaethau Gorchymyn Amddiffyn (PO) / Gorchymyn Amddiffyn Trais Domestig (DVPO)

Teitl yr astudiaeth / Awdur(on)	Nodau'r ymchwil	Cwmpas y data	Nodweddion methodolegol	Prif ganfyddiadau'r astudiaeth / Casgliadau
<p><i>Gwerthusiad o'r peilot o orchymynion amddiffyn trais domestig</i></p> <p>Y Swyddfa Gartref/ Kelly et al. (2013)</p>	<ul style="list-style-type: none"> Sut y cyflwynwyd DVPOs a DVPNs? Beth oedd barn ymarferwyr/diodd efwr/cyflawnwr ar DVPOs? A oedd DVPOs yn effeithiol wrth leihau DV? Beth oedd gwerth economaidd y cynllun peilot? 	<ul style="list-style-type: none"> Gwlad: DU Ystod 15 mis 3 llu (Manceinion Fwyaf, Gorllewin Mercia, Wilts) Data sylfaenol: DVPOs posib a nodwyd gan yr heddlu (n = 509) 	<ul style="list-style-type: none"> Dulliau cymysg (arolygon, grwpiau ffocws, cyfweiliadau) Dadansoddiad meintiau'n seiliedig ar ddata digwyddiadau'r heddlu - wedi'i anelu at effaith ehangach ar erledigaeth a'r economi Dim ymgysylltu ar gyfer difrifoldeb trosedd nac ar gyfer effeithiau tymor hwy Dim grŵp rheoli 	<ul style="list-style-type: none"> Yn gyffredinol, roedd achosion yn cynnwys partneriaid sy'n cyd-fyw Yn gyffredinol, roedd DVPOs yn cael eu hystyried yn gadarnhaol, er nad oedd lleiafrif y dioddefwyr yn teimlo bod DVPOs yn ddefnyddiol Ychydig o doriadau DVPO (<1%); effaith DVPO bosibl o 1 yn llai o ddigwyddiadau/achosion ar gyfartaledd Arfer atgyfeirio a rhannu data'n anghyson Cyfyngiadau amseru/gweinyddu o ynghylch DVPOs Materion canfyddiad / dryswch ynghylch DVPOs Enillion negyddol ar fuddsoddiad (0.23c/£1) Anghysondebau â phrosesu DVPOs yn y system farnwrol

Teitl yr astudiaeth / Awdur(on)	Nodau'r ymchwil	Cwmpas y data	Nodweddion methodolegol	Prif ganfyddiadau'r astudiaeth / Casgliadau
<p><i>Mae Gorchmynion Amddiffyn yn amddiffyn rhag ymosodiad ac anaf: Astudiaeth hydredol o fenywod sy'n dioddef trais gan bartner agos lle mae'r heddlu'n gysylltiedig</i></p> <p>Kothari et al. (2012)</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mesur effeithiolrwydd POs wrth leihau ymosodiadau a chanlyniadau cysylltiedig ag anafiadau 	<ul style="list-style-type: none"> Gwlad: UDA Data sylfaenol: menywod yn dioddef ymosodiad yn y flwyddyn 2000 (n = 993) Grŵp PO a rheoli n = 130 Adolygiad ôl-weithredol o gofnodion yr heddlu, adrannau achosion brys, llys teulu, ac erlynwyr ar gyfer dioddefwyr IPV sy'n ymwneud â'r heddlu 	<ul style="list-style-type: none"> Cymhariaeth rhwng grwpiau (PO a heb fod yn PO) Cofnodion wedi'u cyfuno i greu newidynnau Grŵp rheoli wedi'i gyfateb mewn parau â grŵp PO yn ôl tebygrwydd y sefyllfa (dadansoddiad Chi-sgwâr ac atchweliad logistaidd) 	<ul style="list-style-type: none"> Mae POs sy'n gysylltiedig â mwy o alwadau'r heddlu am ddigwyddiadau ffeloniaeth/cyfrif lluosog a digwyddiadau nad ydynt yn ymosodol Roedd gan y grŵp PO gyfraddau digwyddiadau yn uwch na'r grŵp rheolicynPO, gan ostwng i lefel y grŵp rheoli yn ystod ac ar ôl PO Yn cadarnhau'n gryf am effaith amddiffynnol POs, ac am lai o ymweliadau â'r heddlu ac adrannau brys yn ystod ac ar ôl PO
<p><i>Gorchmynion amddiffyn a thrais partner agos: Astudiaeth 18 mis o 150 o fenywod du, Sbaenaidd a gwyn</i></p> <p>McFarlane et al. (2004)</p>	<ul style="list-style-type: none"> Cymhariaeth o fathau ac amleddau trais partner agos (IPV) a brofir gan fenywod cyn/ar ôl PO 2 flynedd 	<ul style="list-style-type: none"> Gwlad: UDA (Houston, TX) Data sylfaenol: 4 cyfweliad o fenywod sy'n gwneud cais am PO (n=150) Amserlen: 18 mis (Ionawr 2001 i Fehefin 2002) 	<ul style="list-style-type: none"> Cymhariaeth rhwng grwpiau (PO a heb fod yn PO) Ffurflenni data demograffig Graddfa Difrifoldeb Trais yn erbyn Menywod (SVAWS) Arolwg Erledigaeth Stelcio ochr yn ochr ag offeryn HARASS Sheridan Data a gafwyd trwy gyfweliadau ffôn 	<ul style="list-style-type: none"> P'un a roddwyd PO 2 flynedd ai peidio, mae'r weithred o geisio un yn gysylltiedig ag adroddiadau sylweddol is o gam-drin a fygythir, cam-drin corfforol, stelcio, aflonyddu yn y gwaith a ffactorau risg o lofruddio menywod (ar gamau 3, 6, 12 a 18 mis ar ôl gwneud cais) Adroddodd 44% o fenywod am dorri PO i'r astudiaeth; dim ond hanner y rhain a adroddwyd i'r heddlu
<p><i>A yw gorchmynion amddiffyn yn</i></p>	<ul style="list-style-type: none"> Asesu effaith CPO ar y risg o 	<ul style="list-style-type: none"> Gwlad: UDA (Seattle, 	<ul style="list-style-type: none"> Cymhariaeth rhwng grwpiau (CPO a heb fod yn 	<ul style="list-style-type: none"> Llai o risg o: cyswllt digroeso; galwadau digroeso; bygythiadau; cam-drin neu

Teitl yr astudiaeth / Awdur(on)	Nodau'r ymchwil	Cwmpas y data	Nodweddion methodolegol	Prif ganfyddiadau'r astudiaeth / Casgliadau
<p><i>effeithio ar y tebygolrwydd o drais ac anaf gan bartner yn y dyfodol?</i></p> <p>Holt et al. (2003)</p>	<p>IPV ac anaf a hunan-adroddir yn y dyfodol</p>	<p>WA)</p> <ul style="list-style-type: none"> • 3 chyfweliad â menywod yn gwneud cais am CPOs (n=448) • Amserlen: 9 mis ar ôl y digwyddiad (Hydref 1997 i Ragfyr 1998) 	<p>CPO)</p> <ul style="list-style-type: none"> • Data demograffig ar ddiodefwyr a chamdrinwyr • Hanes cam-drin (Graddfa Tactegau Gwrthdaro) • Statws iechyd meddwl a chorfforol cyfranogwyr (Graddfa Iselder y Ganolfan Astudiaethau Epidemiolegol (CES); Graddfa Sgrinio NET; Graddfa Addasu Cymdeithasol; cwestiynau) • Cymarebau ods a ddefnyddir i amcangyfrif risgiau (ar gyfer pob cyfweliad yn annibynnol) 	<p>anaf seicolegol, rhywiol neu gorfforol; gofal meddygol cysylltiedig â cham-drin i fenywod sy'n cael CPO o'i gymharu â'r rhai nad ydynt</p>
<p><i>Canlyniadau gorchymyn amddiffyn sifil: Toriadau a chanfyddiadau o effeithiolrwydd</i></p> <p>Fe wnaeth Logan a Walker (2009)</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Archwilio canlyniadau PO i werthuso: <ul style="list-style-type: none"> ○ A yw trais i'r deisebydd yn parhau ar ôl cael PO ○ Canfyddiadau deisebwyr o effeithiolrwydd PO 	<ul style="list-style-type: none"> • Gwlad: UDA • Data sylfaenol: 2 gyfweliad o ddiodefwyr benywaidd a gafodd PO yn erbyn partner gwrywaidd (n=698) • Amserlen: 21 mis (Chwefror 2001 i Dachwedd 2003), cyfweliad dilynol oddeutu 1 flwyddyn ar ôl y 4 awdurdodaeth gyntaf 	<ul style="list-style-type: none"> • Data demograffig; Graddfa Tactegau Gwrthdaro (chwe chategori a mynegai difrifoldeb trais wedi'u hychwanegu yn y camau dilynol); Dull Calendr Hanes Bywyd i gasglu profiadau stelcio; graddfeydd canfyddiad o 'effeithiolrwydd' a 'diogelwch' • Atchweliad logistaidd ar gyfer ffactorau ynghylch torri PO • Dadansoddiad Chi-sgwâr 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae PO yn dal i fod mewn grym ar gyfer 70% o ddiodefwyr wrth wneud y gwaith dilynol • Profodd 58% o fenywod doriad ar PO (dim gwahaniaeth sylweddol ar draws awdurdodaethau) • Roedd POs yn cael eu hystyried yn hynod (51%) neu'n weddol (27%) effeithiol, ac yn hynod (43%) neu'n weddol (34%) ddiogel • Dim ond 49% o'r toriadau PO a adroddwyd i'r astudiaeth a adroddwyd i'r heddlu • Hanes stelcio a pherthynas barhaus â

Teitl yr astudiaeth / Awdur(on)	Nodau'r ymchwil	Cwmpas y data	Nodweddion methodolegol	Prif ganfyddiadau'r astudiaeth / Casgliadau
			<p>ac unffordd o amrywiant (ANOVA) ar gyfer gwahaniaethau deu-amryweb</p>	<p>phartner wedi'i nodi fel ffactorau allweddol sy'n rhagweld torri PO</p>
<p><i>Nodweddion perthynas a gorchmynion amddiffynnol ymhlith sampl amrywiol o fenywod</i></p> <p>Logan, Cole, Shannon a Walker (2007)</p>	<ul style="list-style-type: none"> Cymhariaethau'n seiliedig ar wybodaeth ddisgrifiadol o fenywod â POs Canlyniadau PO wedi'u mesur a chanfyddiadau dioddefwyr o: effeithiolrwydd; rhyddid rhag partner; teimladau o ddiogelwch cymharol 	<ul style="list-style-type: none"> Gwlad: UDA Data sylfaenol: cyfweiliad o ddiodefwyr benywaidd a gafodd PO (n=757) Wedi'u rhannu'n grwpiau o: Gwyn gwledig (n=371); Gwyn trefol (n=254); Affricanaidd Americanaidd trefol (n=103) Amserlen: 21 mis (Chwefror 2001 i Dachwedd 2003) 	<ul style="list-style-type: none"> Data demograffig; Graddfa Tactegau Gwrthdaro; Rhestr Cam-drin Menywod yn Seicolegol (PMWI) Is-raddfeydd a gynhyrchir: 5 cam-drin seicolegol, 2 gam-drin corfforol, 1 mynnu rhywiol, 1 rhywiol, 1 anaf 	<ul style="list-style-type: none"> Cyfradd torri PO 25% i 30% ym mhob un o'r tri grŵp Canfyddiadau o PO: 55% i 62% yn weddol neu'n hynod ddiogel; 56 i 65% yn weddol neu'n hynod rydd; 70 i 80% DVO yn effeithiol; 83% i 94% Proses DVO cystal (pob sgôr isaf yn y grŵp Gwyn gwledig)
<p><i>Erledigaeth stelcio yng nghyd-destun trais partner agos</i></p> <p>Logan, Shannon a Cole (2007)</p>	<ul style="list-style-type: none"> Cymariaethau rhwng menywod â PO yn erbyn (cyn)-bartner a adroddodd am stelcio a heb adrodd amdano 	<ul style="list-style-type: none"> Gwlad: UDA Data sylfaenol: menywod â CPO (n=757), wedi'u rhannu'n rhai a nododd fod partner wedi'u stelcio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (n=359); y rhai na nododd fod partner blaenorol 	<ul style="list-style-type: none"> Cymhariaeth rhwng grwpiau; demograffeg wedi'i chymryd Stelcio wedi'i fesur gan: 'A yw partner erioed wedi eich dilyn/ffonio chi dro ar ôl tro, wedi ymddangosyn sydyn yn y tŷ, yn y gwaith/arall?' ac 'A wnaeth eich partner erioed eich stelcio neu eich erlid yn obsesiynol pan nad 	<ul style="list-style-type: none"> Partner yn stelcio cyn dangosydd cryf PO o: drais/erledigaeth mwy difrifol gan bartner; mwy o ofid; mwy o ofn; mwy o doriadau PO, i gyd ar ôl rheoli ar gyfer demograffeg ac ati. Nifer fach ond sylweddol fwy o fenywod heb stelcio cyn PO yn parhau i fyw gyda'r partner ar adeg y cyfweiliad ôl-PO Prin i fenywod riportio eu bod wedi'u

Teitl yr astudiaeth / Awdur(on)	Nodau'r ymchwil	Cwmpas y data	Nodweddion methodolegol	Prif ganfyddiadau'r astudiaeth / Casgliadau
		<p>wedi'u stelcio (n=345); a'r rhai a nododd bod partner wedi'u stelcio ond nad oedd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (n=53); ni chynhwyswyd y grŵp olaf hwn</p> <ul style="list-style-type: none"> Amserlen: 21 mis (Chwefror 2001 i Dachwedd 2003), 1 cyfweiliad (5 wythnos ar ôl PO) 	<p>oeddech am iddo ei wneud, ac fe wnaeth hyn eich dychryn?'</p> <ul style="list-style-type: none"> Graddfa Tactegau Gwrthdaro; PMWI; cwestiynau gwaith peilot (9 is-raddfa erledigaeth, 4 mynegai cymharol) Ymatebion MINI wedi'u haddasu (is-raddfeydd iechyd meddwl) 'Dull Logan' ar gyfer canfyddiadau o raddfeydd PO Chi-sgwâr; ANOVA 1-ffordd; ANCOVA ac atchweliad logistaidd; canfyddiadau arwyddocaol ar $p < 0.01$ 	<p>stelcio'n ddigymell naill ai mewn deiseb PO neu i'r heddlu sôn amdani mewn adroddiadau</p>

Teitl yr astudiaeth / Awdur(on)	Nodau'r ymchwil	Cwmpas y data	Nodweddion methodolegol	Prif ganfyddiadau'r astudiaeth / Casgliadau
<p><i>Ffactorau sy'n gysylltiedig â gwahanu a thrais parhaus ymysg menywod â gorchmynion amddiffyn sifil</i></p> <p>Logan, Walker, Shannon a Cole (2008)</p>	<ul style="list-style-type: none"> Deall statws perthynas ar ôl derbyn PO yn erbyn partner gwrywaidd, a ffactorau sy'n gysylltiedig â thorri PO 	<ul style="list-style-type: none"> Gwlad: UDA Data sylfaenol: menywod yn cael PO yn erbyn partner agos gwrywaidd (n=756, y darparodd 698 ohonynt ddata llawn i ddiwedd yr astudiaeth) 4 awdurdodaeth (3 gwledig, 1 trefol) Amserlen: 21 mis (Chwefror 2001 i Dachwedd 2003), 2 gyfweiliad; y cyntaf ar 40 diwrnod (cyf.) ar ôl PO, yr ail ar oddeutu 1 flwyddyn ar ôl PO 	<ul style="list-style-type: none"> Demograffeg wedi'i chymryd Nodweddion perthynas sy'n deillio o fesurau sy'n deillio o waith peilot Graddfeydd erledigaeth sy'n deillio o ymatebion pwysoli i'r Raddfa Tactegau Gwrthdaro 'Dull Logan' ar gyfer graddfeydd canfyddiad Chi-sgwariau; ANOVA 1-ffordd; atchweliad logistaidd 	<ul style="list-style-type: none"> Fe wnaeth oddeutu 5 o bob 10 merch na pharhaodd eu perthynas brofi toriad PO, yn hytrach na 7 o bob 10 a barhaodd â'r berthynas Waeth beth oedd statws eu perthynas, roedd mwyafrif y menywod yn teimlo'n fwy diogel, a bod y PO yn parhau i fod yn effeithiol Mae stelcio yn ddangosydd arwyddocaol o'r tebygolrwydd bod: perthynas yn dod i ben; y PO yn cael ei dorri (waeth beth yw statws y berthynas ôl-PO) Perthnasoedd hwy yn fwy tebyg i ddod i ben ar ôl cael PO Fe wnaeth 40% adrodd am y gyfradd torri PO i'r astudiaeth

